**Rhif:** WG52425

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Canllawiau gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 mis Mehefin 2025
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 mis Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn cael eu gwneud o dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol.

Cyhoeddwyd y fersiwn flaenorol o'r canllawiau hyn yn 2014; ers hynny bu dau adolygiad i Deithio gan Ddysgwyr yng Nghymru a nododd nifer o feysydd lle roedd angen diwygio'r canllawiau. Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i'r Canllawiau ddod i rym neu'n egluro gofynion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny.

Ein prif nodau wrth adolygu'r canllawiau hyn yw sicrhau bod y canllawiau

- yn cyd-fynd â, ac yn ymhelaethu ar y datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014,
- darparu eglurder ar ddarpariaeth trafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- cryfhau canllawiau ar Adran 10 (hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) ac Adran 11 (hyrwyddo teithio cynaliadwy) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)
- adlewyrchu rhai o'r arferion da a nodwyd ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni.

Rydym yn cynnig bod y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi fel cyfres o ddogfennau i helpu pobl i lywio'r wybodaeth ond hefyd i helpu i gadw'r wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

**Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ail argraffiad drafft y Canllawiau Gweithredol Teithio i Ddysgwyr sydd ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori hon. Mae'r Canllawiau drafft yn gwneud newidiadau i argraffiad cyntaf y Canllawiau a gyhoeddwyd yn 2014. Mae rhan fwyaf y newidiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i argraffiad cyntaf y Canllawiau ddod i rym.

## Sut i ymateb

Dylid derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **10 mis Medi 2025** fan bellaf.

**EBOST:** Lawrlwytho'r ffurflen ymateb.
Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd at bus@llyw.cymru

**POSTIO:** Lawrlwythwch y **ffurflen ymateb.**
Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd at:

Ymgynghoriad Teithio i Ddysgwyr
Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integredig
Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy wneud cais amdanynt.

Y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r canllawiau hyn yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Cynhaliwyd dau adolygiad ar Deithio gan Ddysgwyr yng Nghymru, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru - cludiant i'r ysgol.

Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integredig
Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: bus@llyw.cymru (pennawd pwnc: Ymgynghoriad Teithio gan Ddysgwyr)

This document is also available in English.

**@WGTransport** @WG_Education

Facebook/EducationWales

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Contents


**Crynodeb** **9**

Beth yw’r prif bynciau trafod? 9

Ble rydyn ni arni nawr? 9

Pam ein bod yn cynnig newid? 10

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 10

Cymraeg 2050 10

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 10

Sero Net / Llwybr Newydd 10

Newidiadau eraill 11

**Rhan 1 – Canllawiau gweithredol** **12**

Cefndir 12

Crynodeb 13

Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn? 14

Pwyntiau allweddol 15

Rhieni/Gofalwyr 15

Plant a Phobl Ifanc 15

Ysgolion/Sefydliadau Addysg Bellach – Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu 15

Awdurdodau Lleol 16

Llywodraeth Cymru 17

Darpariaethau Statudol 18

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. 18

Trosolwg 18

Dyletswyddau Statudol Gweinidogion Cymru o ran y Mesur. 18

Dyletswyddau Statudol yr Awdurdodau Lleol o dan y Mesur 18

Dyletswyddau statudol cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau yn y sector addysg bellach 19

Cyfrifoldebau rhieni: 20

Asesu anghenion 21

Hawliau 23

Dysgwyr ysgol gynradd 23

Dysgwyr ysgol uwchradd 23

Llety 24

Plant sy'n derbyn gofal 24

Trothwyon pellter 24

Gwneud trefniadau cludiant addas 24

Lefelau Afresymol o Straen 25

Amseroedd Teithio 25

Teithio Diogel 26

Gwneud Trefniadau Teithio Eraill 26

Yr ysgol addas agosaf 27
Y llwybrau sydd ar gael 28
Derbyn 29
Rhoi dewisiadau rhieni ar waith 29
Dewisiadau dysgwyr 30
Presenoldeb dysgwyr yn yr ysgol 30
Penderfynu ar y breswylfa arferol o dan amgylchiadau arbennig 31
    Dim preswylfa arferol 31
    Preswyliad deuol 31
Meini prawf pellter 32
Cludiant i ddysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol 33
    Dysgwyr Ôl-16 33
    Dysgwyr o dan Oedran Ysgol Gorfodol (Addysg Feithrin). 34
Hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 10) 34
    Adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr 34
    Safonau'r Gymraeg 34
    Strategaeth Hybu'r Gymraeg 35
    Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 35
Cludiant i ysgolion enwadol 36
Dysgwyr anabl a dysgwyr ag Anghenion Dysgu 36
Trefniadau cludo yn ôl disgresiwn 38
Hybu dulliau teithio cynaliadwy 40
Codi tâl am gludiant 42
**Pwerau i roi canllawiau a chyfarwyddiadau 43**
**Rhan 2 44**
Asesu 'llwybr sydd ar gael' i'r ysgol 44
    Trosolwg 44
    Y Weithdrefn Asesu – Llwybrau 45
    Diffiniad o Lwybr nad yw'n Beryglus 47
**Yn ogystal â 47**
**Os bydd angen croesi ffyrdd, bydd yn rhaid cael:- 47**
**neu 47**
    Llinellau gweld 47
    Asesiadau Croesi Ffyrdd 48
    Amser Bylchau 48
    Arolygon Safle a Llifoedd Traffig 48
**Hanes o Wrthdrawiadau 49**
    Camlesi, Afonydd, Ffosydd ac Argloddiau 49
    Goleuadau 49
    Newidiadau Arfaethedig yn yr Ardal 50
**A/neu Gyd-bwyllgorau Corfforaethol 50**

Croesfannau Rheilffordd 50
Y Weithdrefn Asesu Llwybrau – Diogelwch Cymdeithasol 50
Natur Perygl Cymdeithasol 51
Asesiad Diogelwch Cymdeithasol 51
Asesu Diogelwch Cymdeithasol – Gweithio mewn partneriaeth 51
Amseriadau asesiadau 52
Helpu i Sicrhau Diogelwch Plant 52
Rolau a Chyfrifoldebau 53
**Rhan 2 – Atodiad 1a – Rhestr wirio ar gyfer Asesu a yw Llwybr ar Gael 56**
**Rhan 2 – Atodiad 1b – Matrics asesu a yw Llwybr ar Gael 57**
**Rhan 2 – Atodiad 2 – Templed ar gyfer Asesiad Ymgysylltu â Dysgwr 58**
**Rhan 3 59**
Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 59
Cyhoeddi Polisïau Teithio gan Ddysgwyr a Gwybodaeth i Rieni 59
**Rhan 3 – Atodiad 1: Templed ar gyfer Polisi Cludiant i Ddysgwyr 61**
**Rhan 4 63**
Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr 63
Trosolwg 63
Darparu Gwregysau Diogelwch 63
Gwisgo Gwregysau Diogelwch 63
Cosbau Troseddol 66
Atebolrwydd y rhai sy'n darparu neu'n sicrhau cludiant i ddysgwyr – pwy a fydd yn cael ei erlyn? 67
Hebryngwyr Teithio 67
**Cwestiynau'r ymgynghoriad 69**

# Crynodeb

## Beth yw'r prif bynciau trafod?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau gweithredol statudol diwygiedig ar gyfer darpariaeth teithio gan ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu'n bennaf at awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysgol – mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau statudol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Cafodd y canllawiau eu diweddaru ddiwethaf yn 2014.

Er nad oes unrhyw newidiadau i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, bu amryw o newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau polisi yng Nghymru ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol.

Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i adlewyrchu, ac ymhelaethu ar y newidiadau hyn. Mae'n ceisio egluro dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol, ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr mewn ymateb i adborth gan ystod o bartneriaid â diddordeb.

Ein prif nodau wrth adolygu'r canllawiau hyn yw sicrhau bod y canllawiau

- yn cyd-fynd â datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014
- darparu eglurder ar ddarpariaeth trafnidiaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- cryfhau canllawiau ar Adran 10 (hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) ac Adran 11 (hyrwyddo teithio cynaliadwy) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)
- adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'i nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni.

Rydym yn cynnig bod y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi fel cyfres o ddogfennau i helpu pobl i lywio'r wybodaeth ond hefyd i helpu i gadw'r wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

Ariennir Teithio gan Ddysgwyr drwy'r Grant Cynnal Refeniw a ddarperir i awdurdodau lleol. Nid oes unrhyw arian wedi'i neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol; mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr ymreolaeth a'r awdurdod i gyflawni yn unol ag anghenion lleol.

## Ble rydyn ni arni nawr?

Ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi yn 2014, bu nifer o newidiadau deddfwriaethol. Mae dau adolygiad i deithio gan ddysgwyr wedi eu cynnal yn tynnu sylw at yr angen i ddiweddaru'r canllawiau i sicrhau eu bod yn ymhelaethu ac yn cyd-fynd â'r amgylchedd deddfwriaethol presennol tra'n annog gwell cysondeb cyflwyno ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.llyw.cymru/cludiant i'r ysgol](www.llyw.cymru/cludiant i'r ysgol)

## Pam ein bod yn cynnig newid?

Mae rhan fwyaf y diwygiadau yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i fersiwn wreiddiol y Canllawiau gael eu cyhoeddi yn 2014 neu, yn achos Mesur Hawliau Plant 2011, yn atgyfnerthu gofynion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith.

Ceir crynodeb o'r newidiadau hyn isod

### *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015*

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad cyrff penodol (Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Mae'r safonau'n cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredol, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau llunio polisïau 88-97 yn berthnasol i gynigion trefniadaeth ysgolion am fod yn rhaid i gyrff gydymffurfio â hwy wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys polisiau teithio gan ddysgwyr.

O dan safonau 91, 92 a 93, rhaid i ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a hefyd gofyn am farn ar effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn ofynion ar wahân, sy'n golygu bod rhaid cael asesiad effaith ac yna mae'n rhaid gofyn cwestiynau am yr asesiad hwnnw.

Cafodd y Canllawiau eu diweddaru i adlewyrchu Rheoliadau 2015, gan gynnwys y safonau llunio polisïau.

### *Cymraeg 2050*

Mae'r Cod wedi ei ddiwygio i fod yn gyson â Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir o fewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno.

### *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc (y system ADY). Mae'n disodli'r system ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig (AAA) plant mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach.

Cychwynnodd gweithredu Deddf 2018 o 1 Medi 2021

### *Sero Net / Llwybr Newydd*

Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, mae Cymru wedi deddfu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (y cyfeirir atynt hefyd fel allyriadau carbon) i sero net erbyn 2050. Fel rhan o gynlluniau i gyflawni sero net, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau o

gludiant teithwyr 98% yn 2050 drwy leihau'r galw, newid moddol a defnyddio technolegau carbon isel; a lleihau milltiroedd car a deithiwyd fesul person 10% erbyn 2030 a chynyddu cyfran y teithiau yn ôl dull teithio cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) i 39% erbyn 2030.

Datblygwyd Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r nodau a'r uchelgeisiau hyn gyda newid moddol yn cael ei roi wrth wraidd cyflawni'r strategaeth. Mae hyn yn golygu bod cyfran y teithiau a wneir gan ddulliau cynaliadwy yn cynyddu a llai o deithiau yn cael eu gwneud gan geir preifat. Mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phlant a phobl ifanc, yn cydnabod y manteision amgylcheddol i deithio cynaliadwy, a sut y gall teithio llesol helpu lles corfforol ac emosiynol

***Newidiadau eraill***

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau eraill i'r Canllawiau i gryfhau'r gofynion cyfredol, i ymhelaethu ar egwyddorion CCUHP y dylid eu hymgorffori drwy gydol y ddarpariaeth o deithiau gan ddysgwyr gan awdurdodau lleol ac i helpu i wella cysondeb y cyflenwad ar draws awdurdodau lleol.

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ailstrwythuro'r canllawiau i adrannau ar wahân er hwylustod llywio ac i ddarparu cyfleoedd i ddiweddaru'r canllawiau yn fwy effeithiol ac yn amlach os oes angen.

# Rhan 1 – Canllawiau gweithredol

## Cefndir

1. Cyhoeddir y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (y Canllawiau) o dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur"), sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y Mesur.

2. Cyhoeddwyd y Canllawiau cyntaf yn 2014; mae'r ail fersiwn ddrafft hon wedi cael ei llunio gan gynnwys diwygiadau ar sail adborth gan bartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid allweddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

3. Nod y diwygiadau yw cyfrannu at wella cysondeb wrth gyflawni ym mhob awdurdod lleol drwy wneud y canlynol:

- Rhoi eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni darpariaeth teithio gan ddysgwyr
- Cysoni â datblygiadau polisi a datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers 2014 ac atgyfnerthu gofynion yn ymwneud â deddfwriaeth a oedd eisoes yn ei lle
- Hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg
- Hybu dulliau teithio cynaliadwy
- Arddangos arferion gorau a nodir

4. Ochr yn ochr â'r ddogfen ganllawiau hon, byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth o astudiaethau achos arferion gorau wedi'u hysgogi gan blant, pobl ifanc a'u hysgolion a'u hawdurdodau lleol. Bydd y rhain yn dangos sut maent wedi cael eu grymuso, drwy weithio mewn partneriaeth, i newid arferion, ymddygiad a disgwyliadau eu cymunedau lleol er mwyn darganfod yr amrywiaeth o gyfleoedd teithio sydd ar gael i'n dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ffocws penodol ar deithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na chludiant preifat fel yr adlewyrchir gan hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb

5. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r darpariaethau statudol, y dyletswyddau penodol a'r cyfrifoldebau allweddol o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 (Cymru) (y Mesur), gan eu gosod yn y cyd-destun deddfwriaethol ehangach.

6. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r Mesur, ond mae deddfwriaeth arall yn berthnasol, a chyfeirir ati, ac mae'n **rhaid** ei hystyried wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Mesur.

7. Dylid ystyried deddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg, cydraddoldeb, diogelu plant, diogelu data, iechyd a diogelwch, a hawliau dynol a'r amgylchedd am eu bod yn bwysig o ran cyflawni'r Mesur.

8. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau sy'n deillio o'r canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:
   - Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022
   - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
   - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
     - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
   - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
   - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
     - Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
   - Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) 2024)
   - Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
   - Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
   - Deddf Cydraddoldeb 2010

9. Mae cynnwys y canllawiau hyn wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu dyletswyddau cyfreithiol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Mesur i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a dulliau teithio cynaliadwy[1].

10. Yn ychwanegol at y rhwymedigaethau statudol, mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau sy'n seiliedig ar arferion gorau y dylai'r cyrff perthnasol eu hystyried wrth ddatblygu eu polisïau lleol.

11. Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio rhoi canllawiau hollgynhwysfawr ar gyfer pob digwyddiad posibl. Bydd amgylchiadau lleol yn amrywio'n fawr. Credwn mai awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o ystyried, mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc, sut y gellir diwallu anghenion rhieni a dysgwyr. Nod y canllawiau yw adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru a'u harddangos.

[1] Adran 10 ac adran 11 o'r Mesur

## Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn?

12. Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector Addysg Bellach y mae'n rhaid iddynt, yn unol â thelerau'r Mesur, roi sylw i'r ddogfen hon.

13. Mae'n bosibl y bydd uwch dimau arwain mewn ysgolion a cholegau hefyd am ddefnyddio'r canllawiau hyn er mwyn deall y prosesau, y polisïau a'r fframwaith cyfreithiol sydd ynghlwm wrth benderfynu ar ddarpariaeth cludiant i'r ysgol, ac ymgysylltu â nhw, er mwyn gweld sut y gall eu cymuned helpu i lywio darpariaeth effeithiol ar gyfer teithio gan ddysgwyr yn eu hardal a chyfrannu ati.

14. Efallai y bydd rhieni/gofalwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynghori, yn ogystal â darparwyr/gweithredwyr cludiant hefyd am ddefnyddio'r canllawiau hyn er mwyn deall y fframwaith cyfreithiol sy'n sail i ddarparu cludiant i'r ysgol. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ddarpariaethau teithio gan ddysgwyr a chyfrifoldebau perthnasol rhieni/gofalwyr a darparwyr cludiant.

15. Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddogfennau canllawiau ar deithio gan ddysgwyr[2].

16. Bydd rhoi'r canllawiau hyn ar waith yn effeithiol yn arwain yn uniongyrchol at effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn annog dysgwyr i roi adborth ar y ffordd y caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith drwy eu hysgolion a'u hawdurdodau lleol, a hefyd drwy Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc Trafnidiaeth Cymru, sy'n gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Plant Cymru.

[2] Cludiant ar gyfer ysgolion | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

## Pwyntiau allweddol

***Rhieni/Gofalwyr***

- Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar rieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid iddynt gymryd yr holl gamau sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi eu plant i fynd i'r ysgol.

- I'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr, bydd hyn yn cynnwys gwneud trefniadau i'w plant deithio i'r ysgol ac oddi yno neu i fan casglu dynodedig.

- Mae cyfrifoldeb ar rieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plant yn deall ac yn dilyn y safonau ymddygiad disgwyliedig wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno, beth bynnag fo'r dull teithio, fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad Teithio Cymru Gyfan a pholisi ymddygiad eu hysgolion.

***Plant a Phobl Ifanc***

- Mae gan bob plentyn hawliau, yn ddiwahân.

- Mae cyfrifoldeb ar bob dysgwr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau ymddygiad disgwyliedig fel y'u nodir yn y Cod Ymddygiad Teithio sut bynnag y bydd yn teithio i'r ysgol.

- Dylai plant gael yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd, yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnyn nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried – gall dysgwyr wneud hyn drwy amrywiaeth o ddulliau, o fforymau ysgol i gysylltu ag awdurdodau lleol yn uniongyrchol (mae'r manylion cyswllt i'w gweld yma)

***Ysgolion/Sefydliadau Addysg Bellach – Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu***

- Mae gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel. Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach gydweithio â theuluoedd, cymunedau a'r gymuned leol i gefnogi a hybu ffyrdd diogel a chynaliadwy o deithio i'r ysgol/i'r coleg.

- Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr, er enghraifft drwy hybu'r safonau ymddygiad a nodir yn y Cod Ymddygiad Teithio, rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff anghenion eu diwallu, ac ystyried trefniadau teithio wrth gynnig newidiadau i'w diwrnod ysgol/coleg.

- Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach gynnig fforymau cyfranogiad priodol a chyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr weithredu ar y cyd i ddatblygu syniadau a chynigion sy'n ymwneud â theithio i'r ysgol/i'r coleg gan ystyried fframwaith deddfwriaethol y Mesur.

- Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach gydweithio ag awdurdodau lleol wrth gaffael darpariaeth cludiant.

- Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach helpu awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth cludiant i ddysgwyr.

- Dylai ysgolion/sefydliadau addysg bellach ddatblygu a rhannu cynlluniau teithio i'r ysgol mewn cydweithrediad â theuluoedd, cymunedau lleol ac awdurdodau lleol er mwyn cyfeirio myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr at opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

***Awdurdodau Lleol***

- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddysgwyr cymwys deithio i'r ysgol yn rhad ac am ddim yn unol â darpariaethau'r Mesur.

- Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i benderfynu pa drefniadau teithio i'w gwneud, cyn belled â'u bod yn addas, fel y diffinnir gan feini prawf derbyn yr awdurdod lleol, ar gyfer anghenion y dysgwyr y cânt eu gwneud ar eu cyfer.

- Dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn modd rhagweithiol er mwyn eu hannog i gyfrannu at ddatblygu polisïau teithio gan ddysgwyr. Dylai awdurdodau lleol gynnig fforymau cyfranogiad priodol a chyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc leisio eu syniadau a'u cynigion, a holi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am deithio i'r ysgol. Dylent sicrhau ei bod yn hawdd i bobl ifanc ddod o hyd i bolisïau teithio gan ddysgwyr a'u deall.

- Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu dulliau teithio cynaliadwy. Ystyrir mai'r arfer orau yw i'r timau perthnasol o fewn awdurdodau lleol (e.e. cydgysylltu trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a theithio gan ddysgwyr) gydweithio i fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth ac adnoddau er mwyn darparu'r seilwaith cefnogol perthnasol i ddysgwyr allu defnyddio dulliau teithio llesol[3] neu drafnidiaeth gyhoeddus, lle bo hynny'n briodol, i fynd i'w mannau dysgu.

- Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i barchu hawliau plant anabl i fyw bywydau annibynnol fel aelodau gweithgar o'r gymuned, i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Dylai timau teithio/cludiant i'r ysgol ac anghenion dysgu ychwanegol awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant a threfniadau teithio eu hystyried, ac y caiff adnoddau addas eu neilltuo ar eu cyfer, os caiff ysgol benodol ei henwi mewn Cynllun Datblygu Annibynnol.

- Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y caiff unrhyw swyddogaethau a wneir o dan y Mesur yn hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Ystyrir mai'r arfer orau yw i awdurdodau lleol gydweithio ar lefel ranbarthol, os bydd angen, i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar adnoddau er mwyn sicrhau na fydd cludiant yn rhwystr a fydd yn atal dysgwyr rhag manteisio ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

- Rhaid i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u polisïau Teithio gan Ddysgwyr sut y byddan nhw, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill fel y bo angen, yn hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o’r Mesur.

- Dylai awdurdodau lleol roi esboniadau am benderfyniadau ynghylch cludiant i'r ysgol (gallai hyn fod ar gais), er mwyn sicrhau bod y geiriad a'r esboniadau'n glir o ran yr hyn o

[3] Mae'r term teithio llesol yn cyfeirio at gerdded, olwyno, sgwtera (heb ddefnyddio sgwter trydan) neu feicio

ystyriwyd a sut y gwnaed y penderfyniad. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at bolisïau, canllawiau a deddfwriaeth berthnasol.

- Dylai awdurdodau lleol gynnig ffordd i rieni apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch dyrannu darpariaeth teithio i'r ysgol am ddim i'w plant (mae manylion cyswllt awdurdodau lleol i'w gweld yma).

- Dylai awdurdodau lleol wreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP") yn eu polisïau.[4]

***Llywodraeth Cymru***

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ac yn monitro'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith i gefnogi darpariaeth teithio gan ddysgwyr yng Nghymru sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn gymdeithasol gyfiawn ac yn hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy[5].

- Bydd Llywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru, yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddeall eu hanghenion a gwrando ar eu safbwyntiau cyfunol er mwyn llywio polisi teithio gan ddysgwyr drwy'r Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc.

[4] Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru – Comisiynydd Plant Cymru

[5] Dulliau teithio a all wella llesiant corfforol defnyddwyr a/neu lesiant amgylcheddol ardal gyfan yr awdurdod lleol neu ran ohoni yw dulliau teithio cynaliadwy

## Darpariaethau Statudol

## Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

### Trosolwg

17. Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 15 o'r Mesur. O dan adran 15, **rhaid** i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau yn y sector addysg bellach roi sylw i'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

18. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (‘y Mesur’) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol â darpariaeth **teithio a chludiant** ar gyfer dysgwyr[6] sy'n teithio i'r mannau perthnasol lle maent yn cael addysg a hyfforddiant ac oddi yno[7]. Mae Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr ar gyfer **presenoldeb** disgyblion yn yr ysgol.

19. Lle mae'r canllawiau yn dweud ei bod yn **rhaid** gwneud rhywbeth, golyga hyn ei fod yn ofyniad mewn deddfwriaeth a rhoddir y ddarpariaeth briodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol mewn troednodyn.

20. Mae'r Mesur yn nodi gofynion penodol o ran cludiant i ddysgwyr yng Nghymru. Mae ei brif ddarpariaethau fel a ganlyn :-

***Dyletswyddau Statudol Gweinidogion Cymru o ran y Mesur.***

21. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- llunio Cod Ymddygiad Teithio Cymru Gyfan (‘Cod Ymddygiad Teithio[8]’)
- Hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy Gyfrwng y Gymraeg wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur [9]
- hybu dulliau teithio cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur[10]

22. Gall Gweinidogion Cymru hefyd gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol[11]; o dan y ddarpariaeth hon y cyhoeddir y canllawiau hyn.

***Dyletswyddau Statudol yr Awdurdodau Lleol o dan y Mesur***

23. Rhaid i awdurdodau lleol[12] wneud y canlynol:
- rhoi sylw i'r canllawiau hyn[13]
- asesu anghenion teithio dysgwyr hyd at 19 oed yn ardal eu hawdurdod[14]

---

[6] Diffinnir dysgwyr yn y Mesur fel unigolyn sy'n cael addysg neu hyfforddiant.
[7] Diffinnir mannau perthnasol o dan adran (4) o'r Mesur. At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir atynt fel ysgolion neu golegau.
[8] Adran 12 o'r Mesur
[9] Adran 10 o'r Mesur
[10] Adran 11 o'r Mesur
[11] Adran 15 o'r Mesur
[12] Ystyr awdurdod lleol yw **pob** adran berthnasol yn yr awdurdod ac nid yw wedi'i gyfyngu i dimau sy'n gyfrifol am gynllunio a/neu gomisiynu trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr
[13] Adran 15 o'r Mesur

[14] Adran 2 o'r Mesur

- cynnig trefniadau cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd ac sy'n byw dwy filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf[15]
- cynnig trefniadau cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd ac sy'n byw tair milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf[16]
- hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur [17]
- hybu dulliau teithio cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur [18]
- sicrhau bod gwregys diogelwch wedi'i osod ar bob sedd teithiwr ym mhob cerbyd a ddefnyddir dan gontract uniongyrchol ar gyfer cludiant i ddysgwyr[19]
- rhoi unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth arall i awdurdodau lleol eraill y mae'n rhesymol i'r awdurdod arall ofyn amdani/amdano i gyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 2, 3, 4 a 6 o'r Mesur[20] yn unol â deddfwriaeth GDPR.
- rhoi unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth arall i bennaeth ysgol berthnasol y mae'n rhesymol i'r pennaeth ofyn amdani/amdano mewn perthynas ag ymddygiad un o ddisgyblion cofrestredig ei ysgol tra oedd y disgybl yn manteisio ar drefniadau teithio a wnaed gan yr awdurdod lleol o dan y Mesur[21] hwn yn unol â deddfwriaeth GDPR.

24. Os na fydd gan ddysgwyr hawl i gael cludiant am ddim, bydd gan awdurdodau lleol y pŵer i ddarparu cludiant, a chodi tâl amdano, yn ôl eu disgresiwn[22].

***Dyletswyddau statudol cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau yn y sector addysg bellach***

25. Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach wneud y canlynol:
    - rhoi sylw i'r ddogfen ganllawiau hon[23]
    - rhoi unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth arall i awdurdod lleol y mae'n rhesymol iddo ofyn amdani/amdano i gyflawni swyddogaethau'r awdurdodau lleol o dan y Mesur[24] hwn yn unol â deddfwriaeth GDPR.
    - sicrhau bod gwregys diogelwch wedi'i osod ar bob sedd teithiwr ym mhob cerbyd a ddefnyddir dan gontract uniongyrchol ar gyfer cludiant i ddysgwyr[25]

26. Rhaid i bennaeth ysgol wneud y canlynol:
    - ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion yn yr ysgol gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Teithio a luniwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o Fesur 2008[26]
    - rhoi unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth arall i awdurdod lleol y mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ofyn amdani/amdano i gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 14[27] o'r Mesur[28] yn unol â deddfwriaeth GDPR.

---

[15] Adran 3 o'r Mesur
[16] Adran 3 o'r Mesur
[17] Adran 10 o'r Mesur
[18] Adran 11 o'r Mesur
[19] Adran 14A o'r Mesur
[20] Adran 17 o'r Mesur
[21] Adran 17 o'r Mesur
[22] Adran 6 o'r Mesur
[23] Adran 15 o'r Mesur
[24] Adran 17 o'r Mesur
[25] Adran 14A o'r Mesur
[26] Gwnaeth adran 13 o'r Mesur ddiwygio Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (legislation.gov.uk)
[27] Mae adran 14 yn cyfeirio at orfodi'r Cod Ymddygiad Teithio;
[28] Adran 17 o'r Mesur

***Cyfrifoldebau rhieni:***

27. Nid yw'r Mesur yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau statudol ar rieni/gofalwyr nac ar blant a phobl ifanc. Os bydd plentyn o oedran addysg orfodol wedi'i gofrestru mewn ysgol ond yn methu â mynychu'n rheolaidd, mae'n bosibl y bydd ei rieni yn euog o drosedd ac y gall yr awdurdod lleol eu herlyn[29]. Yn unol â thelerau'r Mesur[30] bydd gan rieni amddiffyniad rhag erlyniad os bydd awdurdod lleol wedi methu â chyflawni, pan fo'n ofynnol, ei ddyletswyddau statudol o dan adran 3 neu 4 o'r Mesur i wneud trefniadau teithio er mwyn hwyluso presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol.

28. Mae'r darpariaethau yn y Mesur yn hanfodol er mwyn gwireddu hawl plant i gael addysg, ac maent yn helpu plant i gyflawni eu potensial a ffynnu mewn addysg pan fyddant yno[31]. Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir yn y Mesur er mwyn gwneud yn siŵr y gall plant gyrraedd eu lleoliad addysg mewn ffordd sy'n ddiogel, yn ecogyfeillgar ac yn adlewyrchu eu hanghenion.

---

[29] Adran 444, Deddf Addysg 1996

[30] Gwnaeth adran 20 o'r Mesur ddiwygio adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/444

[31] Erthyglau 28 a 29, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | OHCHR

## Asesu anghenion

29. Yn unol ag adran 2 o'r Mesur, rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr o dan 19 oed sy'n cael addysg neu hyfforddiant a ariennir gan yr awdurdod ac sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed ond a ddechreuodd gwrs pan oeddent o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw.

30. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n byw yn eu hardal hyd at 19 oed, ond nid oes dyletswydd gyfreithiol i gynnig cludiant am ddim na threfniadau teithio a gynorthwyir i ddysgwyr oedran meithrin nac ôl-orfodol.

31. Anghenion penodol dysgwyr o ran trefniadau teithio addas rhwng eu cartref a'r ysgol/coleg bob dydd yw anghenion teithio dysgwyr. Mae'r dysgwyr hynny y caiff eu hanghenion teithio eu hasesu gan yr awdurdod lleol hefyd yn cynnwys y rhai y mae eu hysgolion addas agosaf mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill.

32. Dim ond y dysgwyr hynny sy'n mynychu darpariaeth addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu eu hanghenion teithio.

33. Rhaid i awdurdod gynnal asesiad o anghenion teithio dysgwyr ar gyfer ei ardal bob blwyddyn academaidd i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol[32].

34. Wrth gynnal asesiad ar gyfer yr ardal, **rhaid** i'r awdurdod lleol roi sylw i'r canlynol[33]:-

- anghenion dysgwyr sy'n anabl[34]
- anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol fel y'u nodir yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) dysgwyr (paragraffau 134-145)
- unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n 'derbyn gofal' neu a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan awdurdod lleol
- oedran dysgwyr
- natur y llwybr y gellid disgwyl i ddysgwyr ei gymryd rhwng eu cartrefi a'r mannau lle y cânt addysg neu hyfforddiant.

35. Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, dylai awdurdodau lleol ystyried pwy yw'r dysgwyr yn eu hardal, gan gynnwys:

- ble mae dysgwyr yn mynd i'r ysgol ar hyn o bryd, neu ble y disgwylir iddynt fynd i'r ysgol
- y ddarpariaeth o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg yn eu hardal, ac yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, gan gynnwys ystyried:
  - proffiliau ieithyddol cymunedau
  - polisïau, targedau a nodau o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel y nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Strategaethau Iaith Gymraeg yr awdurdodau lleol.
  - darpariaeth o ran ysgolion ffydd ar gyfer dysgwyr yn eu hardal
  - pa ddysgwyr y mae dyletswydd gyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer yn unol ag adrannau 3 a 4 o'r Mesur

[32] Adran 2 (2)
[33] Adran 2 (4)
[34] Gellir darllen y diffiniad o anabledd fel yr un sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

- o pa ddysgwyr y maent yn dewis darparu cymorth teithio ar eu cyfer yn ôl eu disgresiwn yn unol ag adran 6 o'r Mesur

36. Dylai awdurdodau lleol ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir gan ysgolion a cholegau wrth asesu anghenion teithio dysgwyr. Anogir ysgolion a cholegau i ddatblygu Cynlluniau Teithio[35]. Bydd y Cynlluniau Teithio hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r awdurdod lleol ac y dylid ei rhannu yn unol â hynny.

37. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[36] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol wneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Lle y penderfynir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, rhaid i'r corff baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) sy'n disgrifio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y bydd angen i'r dysgwr ei chael er mwyn diwallu ei ADY. Dylai'r rhai hynny sy'n paratoi neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc, lle y bo'n berthnasol, gofnodi yn y CDU unrhyw drefniadau teithio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc rhwng ei gartref a'r sefydliad addysg. Dylai'r corff sy'n cynnal y CDU ymgysylltu â swyddogion perthnasol yn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am deithio gan ddysgwyr cyn gynted â phosibl er mwyn cytuno ar ddarpariaeth addas fel yr amlinellir yn y CDU a'r cyfrifoldeb am sicrhau adnoddau ar gyfer y gofyniad, gan sicrhau y caiff unrhyw ofynion o ran y Gymraeg eu hystyried. Mae rhagor o wybodaeth am gofnodi trefniadau teithio mewn CDU i'w cael ym Mhennod 23 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY)[37].

38. Nid yw asesu anghenion teithio dysgwyr yn golygu darparu cludiant am ddim. Dim ond os byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn y Mesur y bydd dysgwyr yn gallu cael cludiant am ddim.

39. Rhaid i awdurdodau lleol hybu dulliau teithio cynaliadwy[38] wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur. Fel rhan o'r asesiad o anghenion, **dylent gydweithio** ag ysgolion ac awdurdodau lleol cyfagos eraill i rannu gwybodaeth a mapio'r opsiynau teithio y gellir eu datblygu mewn modd effeithlon ac effeithiol gan ystyried y canlynol:
   - llwybrau teithio llesol yn yr ardal
   - llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal; a chyfleoedd posibl i ddefnyddio'r llwybrau hyn er mwyn cefnogi trefniadau teithio i'r ysgol
   - cludiant drwy ffynonellau amgen (e.e: dan gontract uniongyrchol i ysgolion/colegau)
   - Cynlluniau Teithio i'r Ysgol

40. Dylai'r asesiad o anghenion roi gwybodaeth i awdurdodau lleol i'w galluogi i wneud trefniadau teithio addas ar gyfer y dysgwyr hynny nad yw teithio llesol na thrafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn iddynt.

41. Mae'n ofynnol i'r asesiad o anghenion ystyried teithio i ysgol addas neu fan dysgu perthnasol ac oddi yno (fel y pennir gan bolisi derbyniadau ysgol yr awdurdod lleol). Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried anghenion teithio dysgwyr unigol yn ystod y dydd rhwng gwahanol fannau addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys:

---

[35] Pecyn Cymorth Cynllun Ysgol Teithio Llesol
[36] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (legislation.gov.uk)
[37] Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (llyw.cymru)
[38] Dulliau teithio a all wella llesiant corfforol defnyddwyr a/neu lesiant amgylcheddol ardal gyfan yr awdurdod lleol neu ran ohoni yw dulliau teithio cynaliadwy

- tripiau preswyl neu dripiau undydd a drefnir gan yr ysgol.
- teithio rhwng ysgolion neu wahanol safleoedd o fewn yr un ysgol

42. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried gweithgareddau allgyrsiol, clybiau brecwast na chlybiau ar ôl ysgol wrth asesu anghenion teithio dysgwyr (ond gallant ddewis gwneud hynny os byddant yn dymuno). Anogir ysgolion a cholegau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a darparwyr cludiant lleol er mwyn archwilio cyfleoedd i adolygu amserlenni gwasanaethau trafnidiaeth lleol er mwyn ymateb i alw ymhlith teithwyr a gaiff ei greu gan eu dysgwyr a'u staff.

43. Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ystyried incwm, iechyd nac ymrwymiadau gwaith rhieni/gofalwyr wrth asesu anghenion teithio dysgwyr (ond gallant ddewis gwneud hynny os byddant yn dymuno).

44. Mae erthygl 12 o CCUHP yn nodi bod gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnyn nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried; ac mae adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Dylai fod gan awdurdodau lleol ddull o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc; gallai hyn fod drwy fforymau cyfranogiad sefydledig (e.e: pwyllgorau ysgol, fforymau pobl ifanc a arweinir gan awdurdodau lleol) y gellid eu defnyddio i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfrannu at y broses o asesu anghenion. Dylai fod gan awdurdodau lleol strwythurau i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael gafael ar wybodaeth am y dulliau hyn a gwybod pa ddylanwad y mae eu cyfraniad wedi'i gael neu'r rhesymau pam na ellir rhoi eu cyfraniadau ar waith.[39]

## Hawliau

45. Mae adran 3 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio addas ar gyfer dysgwyr sydd:

- yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol
- o oedran ysgol gorfodol dan amgylchiadau penodedig ac yn ddarostyngedig i amodau penodedig fel y nodir isod.

### *Dysgwyr ysgol gynradd*

46. Mae gan ddysgwyr sy'n cael addysg gynradd hawl i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'u hysgol a gynhelir; uned cyfeirio disgyblion; ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol addas agosaf, neu sefydliad arall a enwir yn eu CDU.

### *Dysgwyr ysgol uwchradd*

47. Mae gan ddysgwyr sy'n cael addysg uwchradd hawl i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'u hysgol a gynhelir; uned cyfeirio disgyblion; ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol annibynnol addas agosaf, neu sefydliad arall a enwir yn eu CDU.

[39] Gellir cael rhagor o wybodaeth, cymorth ac adnoddau o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru - [Y Ffordd Gywir - Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru]

48. Mae'r hawl yn cynnwys cludiant i unrhyw ddysgwr o oedran ysgol gorfodol (hyd at 16 oed) sy'n mynychu ei sefydliad addysg bellach addas agosaf fel myfyriwr amser llawn os yw dair milltir neu fwy o'i gartref ac nad yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r dysgwr fynychu sefydliad addas sy'n agosach na thair milltir o gartref y dysgwr.

49. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant i ddysgwyr sydd eisoes yn 16 oed ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd.

50. Mae'r hawl yn cynnwys teithio rhwng y cartref a'r ysgol, os bydd dysgwr wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol a bod angen iddo fynychu ysgolion gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos.

***Llety***

51. Os bydd yr awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau ar gyfer llety priodol i'r dysgwyr yn yr ysgol neu'n agos ati, ni fydd y ddyletswydd i ddarparu cludiant yn gymwys ond byddai disgwyl iddo ddarparu cludiant i'r ysgol ac oddi yno ar ddechrau a diwedd pob tymor.

***Plant sy'n derbyn gofal***

52. Mae plentyn ‘sy'n derbyn gofal’ gan yr awdurdod lleol yn golygu'r un peth â'r hyn a nodir yn adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu sy’n cael ei letya gan yr awdurdod lleol am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

53. O dan adran 3 o'r Mesur, mae'r meini prawf oedran a phellter sy'n gymwys i ddysgwyr ‘sy'n derbyn gofal’ yn union yr un peth â'r rhai sy'n gymwys i blant nad ydynt yn derbyn gofal. Fodd bynnag, o dan adran 4(8) o'r Mesur, nid oes amod bod rhaid iddynt fynychu'r ysgol addas agosaf.

***Trothwyon pellter***

54. Y trothwyon pellter dwy a thair milltir yw'r gofyniad statudol sylfaenol. O dan adran 6 o'r Mesur, mae gan awdurdodau lleol bwerau yn ôl disgresiwn i gynnig cymorth cludiant i garfannau penodol islaw'r trothwy milltiroedd hwn. Penderfyniad i awdurdodau lleol ei wneud fydd hwn, yn seiliedig ar yr asesiad o anghenion lleol.

55. Dylid mesur y pellteroedd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael[40] (paragraffau 76-80). Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ar y ffordd y caiff y llwybr ei fesur

## Gwneud trefniadau cludiant addas

56. Pan fydd adran 3 neu 4 o'r Mesur yn gymwys, **rhaid** i awdurdod lleol wneud trefniadau cludiant addas er mwyn hwyluso presenoldeb y dysgwyr bob dydd yn ei ysgol addas agosaf.

57. Wrth ystyried trefniadau cludiant posibl, dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau a chynnig darpariaeth sy'n adlewyrchu anghenion y dysgwyr yn eu hardal fel y pennir gan yr asesiad o anghenion, gan ystyried yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel y'i nodir

---

[40] Adran 3(7) o'r Mesur

yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd[41] lle y rhoddir blaenoriaeth i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus uwchlaw cerbydau modur preifat.

58. Gall awdurdodau lleol gynnig amrywiaeth o drefniadau cludiant addas er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 3 neu 4 o'r Mesur. Gall y trefniadau hyn gynnwys cynnig cludiant neu dalu am drefniadau cludiant y dysgwr yn llawn, ond nid yn rhannol. Gall hyn gynnwys trefniadau fel gwasanaeth bws ysgol, talu am dacsi, cynnig cardiau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drefniadau i ad-dalu costau teithio rhieni neu ddysgwyr – a elwir yn aml yn Gyllideb Deithio Bersonol.

59. Dylai ysgolion weithio gyda dysgwyr i sicrhau eu bod yn deall sut mae awdurdodau lleol yn datblygu eu polisïau sy'n effeithio arnyn nhw a chynnig fforymau perthnasol i ddysgwyr leisio eu hawgrymiadau a'u sylwadau ynghylch cynlluniau teithio sy'n berthnasol i'w cymuned leol. Anogir ysgolion i ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael drwy Raglen Teithiau Llesol Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn cyfrannu at y Rhaglen Eco-Sgolion[42], a/neu Raglen Ysgolion Iach GIG Cymru[43] i ddatblygu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol er mwyn helpu i lywio darpariaeth teithio gan ddysgwyr awdurdodau lleol.

60. O dan adrannau 3(5) a 4(6) o'r Mesur, ni fydd trefniadau cludiant yn addas dan yr amgylchiadau canlynol:

- os byddant yn achosi lefelau afresymol o straen i'r dysgwr
- os byddant yn cymryd amser afresymol o hir
- os byddant yn anniogel

### *Lefelau Afresymol o Straen*

61. Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau cludiant addas i sicrhau na fyddant yn achosi lefelau afresymol o straen i'r dysgwr, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol[44]. Nid yw'r Mesur yn diffinio 'straen', ac nid yw ychwaith yn cynnwys rhestr ddiffiniol o'r meini prawf y dylai awdurdodau lleol eu hystyried er mwyn penderfynu a yw'r daith yn achosi lefel afresymol o straen. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod straen yn golygu cyflwr o bwysau meddyliol neu emosiynol sy'n deillio o amgylchiadau andwyol neu heriol. Bydd yr hyn sy'n gyfystyr â lefel afresymol o straen yn amrywio o un dysgwr i'r llall a dylid ystyried hynny fesul achos.

62. Dylai awdurdodau lleol ystyried y canlynol wrth asesu lefelau o straen:

- oedran y dysgwr
- a oes gan y dysgwr anabledd neu
- a oes gan y dysgwr ADY y bydd angen cyfrif amdanynt[45]

### *Amseroedd Teithio*

63. Nid yw'r Mesur yn nodi terfyn amser ar gyfer teithiau oherwydd amrywiadau o ddydd i ddydd megis tagfeydd traffig, damweiniau a'r gwahanol dopograffi sy'n bodoli ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr

[41] Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
[42] Eco-Sgolion, Cadwch Gymru'n Daclus
[43] Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru
[44] Adran 3(5) o'r Mesur.
[45] Dylai hyn fod wedi'i nodi yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y dysgwr.

wrth ystyried a yw amser teithio yn rhesymol. Dylai asesiad ystyried natur ac amgylchiadau pob taith. Dylid pwyso a mesur penderfyniadau ar sail y gofyniad i sicrhau bod y dysgwr yn mynychu'r man dysgu priodol.[46] Argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried y canlynol wrth asesu amseroedd teithio dysgwyr:-

- oedran y dysgwr
- a oes gan y dysgwr anabledd neu
- a oes gan y dysgwr ADY y bydd angen cyfrif amdanynt[47]

64. Fel canllaw cyffredinol, dylai'r amser teithio hwyaf ar gyfer dysgwr oedran ysgol gynradd fod tua 45 munud bob ffordd, a thua 75 munud bob ffordd ar gyfer dysgwr oedran ysgol uwchradd, gan gynnwys unrhyw amser a dreulir yn cerdded i fan casglu, ond bydd amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl, er enghraifft mewn ardaloedd gwledig lle y bydd dysgwyr yn byw mewn lleoliadau anghysbell, lle y bydd angen i ddysgwr deithio'n bell i'r ysgol a enwir yn ei CDU, i ysgol cyfrwng Cymraeg neu i ysgol ffydd neu pan gaiff amseroedd teithio eu hymestyn gan achosion o oedi oherwydd traffig. Lle bynnag y bo modd, ni ddylid disgwyl i ddysgwr wneud sawl newid ar drafnidiaeth gyhoeddus.

***Teithio Diogel***

65. Dylai awdurdodau lleol fodloni eu hunain bod yr holl drefniadau a wneir ganddynt ar gyfer cludiant i ddysgwyr yn unol â'u dyletswyddau o dan y Mesur yn ddiogel, a sicrhau bod y trefniadau'n addas ar gyfer anghenion y dysgwyr.

66. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y canllawiau ychwanegol, sy'n seiliedig ar ddogfen Road Safety GB a ROSPA, *Assessment of Walked Routes to School 2021*, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon a'r ddogfen ganllawiau ar asesiadau risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol.[48]

***Gwneud Trefniadau Teithio Eraill***

67. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i hwyluso presenoldeb dysgwr yn yr ysgol – gall hyn gynnwys cludiant (er enghraifft bysiau, tacsis) ond, o dan adran 4, gall hyn hefyd gynnwys trefniadau teithio eraill. Fel yr amlinellir yn adran 5 o'r Mesur, dim ond i deithio i ysgol addas agosaf y dysgwr, fel y'i pennir gan yr awdurdod lleol (oni bai bod y dysgwr yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol) ac oddi yno ar ddechrau a/neu ddiwedd y diwrnod ysgol y mae'r trefniadau teithio hyn yn berthnasol, ac nid ydynt yn cynnwys teithio yn ystod y dydd, na theithio i glybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ac oddi yno.

68. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw gwneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr cymwys. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael iddynt, gan gynnwys:

- Cerdyn teithio ar gyfer rhwydweithiau bysiau a/neu reilffyrdd gwasanaeth cyhoeddus
- Cyllidebau Teithio Personol

[46] Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd amseroedd teithio'n hwy mewn ardaloedd gwledig oherwydd y topograffi; neu mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr deithio am fwy o amser i fynychu addysg cyfrwng Cymraeg, addysg seiliedig ar ffydd neu addysg darpariaeth arbenigol.
[47] Dylai hyn fod wedi'i nodi yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y dysgwr.
[48] Cludiant ar gyfer ysgolion, Llywodraeth Cymru

- Hyfforddiant teithio annibynnol er mwyn rhoi sgiliau a hyder i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o becyn personol o gymorth a fyddai'n cynnwys cerdyn teithio
- Bws ysgol penodedig (gwasanaeth ar gyfer dysgwyr yn unig)
- Tacsis neu gerbydau hurio preifat
- Cyllid i brynu beic/sgwter er mwyn galluogi dysgwr i olwyno i'r ysgol
- Cludiant yr awdurdod lleol ei hun
- Mentrau rhannu lifft

69. Dylai'r trefniadau teithio fodloni'r gofynion cyfreithiol sylfaenol; os na fydd rhieni/gofalwyr yn fodlon ar yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei gynnig, eu cyfrifoldeb nhw fydd trefnu eu cludiant eu hunain ar gyfer y dysgwr.

70. Wrth ystyried a yw trefniadau teithio yn addas at ddibenion adran 4, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r canlynol[49]:
- Yr asesiad a gynhaliwyd o dan adran 2 o'r Mesur (fel yr amlinellir ym mharagraffau 29-44 yn y ddogfen hon)
- y trefniadau teithio y mae'n ddyletswydd arno i'w gwneud o dan adran 3 o'r Mesur
- oedran y dysgwr
- a oes gan y dysgwr anabledd
- unrhyw ADY sydd gan y dysgwr – er enghraifft, dylai'r awdurdod lleol ystyried yr anghenion cludiant a nodir yn CDU y disgybl
- natur y llwybr y gellid disgwyl yn rhesymol i blentyn ei gymryd (paragraffau 76-80)

## Yr ysgol addas agosaf

71. Mae ysgol yn addas i ddysgwr os yw'r "addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir yno yn addas, o ystyried oed, gallu a doniau'r plentyn ac unrhyw anawsterau dysgu a all fod ganddo".[50]

72. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried addasrwydd yr ysgol wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn briodol i'r dysgwr. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pa ysgol addas yw'r un agosaf at y dysgwr, a hynny'n unol â'i Bolisi Derbyniadau Ysgol ei hun, a dylai hefyd ystyried ei Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac a oes ysgol wedi cael ei henwi mewn CDU. Rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y penderfynir ar yr ysgol addas agosaf a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn eu polisi teithio gan ddysgwyr (yn unol â darpariaethau a nodir yn Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009[51].)

73. Gall rhieni a dysgwyr nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol, math penodol o ddarpariaeth iaith neu ysgol ffydd, ond nid yw'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleoli i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol a/neu leoliad a ffefrir gan y rhieni na'r dysgwr, oni fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu mai'r ysgol honno yw ysgol addas agosaf y dysgwr (fel y pennir gan Bolisi Derbyniadau Ysgol yr awdurdod lleol) a bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter neu oni fydd yr awdurdod lleol o'r farn bod y trefniadau teithio yn angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb y dysgwr yn yr ysgol bob dydd.

[49] Adran 4(5) o'r Mesur.
[50] Adran 4(9) o'r Mesur
[51] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/569/regulation/4/made

74. Rhaid darparu cludiant am ddim, i ddysgwyr cymwys, i ysgol y tu allan i ardal yr awdurdod lleol os tybir mai'r sefydliad hwnnw yw ysgol addas agosaf y dysgwr ac os bydd y dysgwr yn byw:

- ymhellach i ffwrdd na'r pellteroedd statudol a nodwyd ar gyfer ei oedran; neu
- o fewn y pellter statudol a nodwyd ar gyfer ei oedran lle mae'r llwybr rhagnodedig y disgwylir i'r dysgwr deithio ar ei hyd wedi'i ddosbarthu'n un *nad yw ar gael* gan yr awdurdod perthnasol; neu
- os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod trefniadau teithio'n angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb y plentyn bob dydd yn yr ysgol.

75. Dylid mesur y pellteroedd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael[52]. Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am y ffordd y caiff y llwybr ei fesur.

| |
|---|
| Arferion Gorau: Diffiniad o'r ysgol addas agosaf<br>Tybir mai ysgol briodol yw'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg ar gyfer oedran, gallu a doniau perthnasol dysgwr, yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf neu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf |

## Y llwybrau sydd ar gael

76. Bydd llwybr ar gael os yw'n "ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun neu os yw'n ddiogel i'r cyfryw blentyn y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oed y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr"[53]. Yn y cyd-destun hwn, mae hebryngwr yn cyfeirio at berson cyfrifol i gydgerdded â'r dysgwr – gall fod yn rhiant, yn ofalwr, yn ffrind teulu neu'n frawd neu chwaer hŷn.

77. Os na fydd y diffiniad hwn yn berthnasol, ni ellir disgwyl i ddysgwr gerdded i'r ysgol er bod y pellter yn llai na'r terfyn pellter sy'n berthnasol i'w oedran ac felly byddai gan y dysgwr hawl i gael darpariaeth teithio am ddim gan ei awdurdod lleol.

78. Wrth asesu a yw llwybr ar gael, dylai awdurdodau lleol ystyried y llwybr cyfan. Dylent ystyried amrywiaeth o risgiau megis lefel a chyflymder traffig; pellteroedd gweledEDD i yrwyr a cherddwyr; argaeledd croesfannau a 'mannau camu i'r neilltu' diogel, digonolrwydd troedffyrdd, llwybrau troed a thanlwybrau; digonolrwydd mannau aros a goleuadau stryd; afonydd, camlesi, amgylcheddau coediog ac adeiledig; a gwaith mewn partneriaeth[54] i liniaru'r risgiau hyn, os bydd hynny'n berthnasol.

79. Ynghyd â'u gwybodaeth leol a'u cyd-destun, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio '*Assessment of Walked Routes to Schools Guidlines*'[55], a gyhoeddwyd gan Road Safety GB, sy'n rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar asesu'r risg a achosir i gerddwyr gan draffig, fel sail ar gyfer datblygu asesiad o ddiogelwch llwybrau.

80. Dylai awdurdodau lleol nodi'n glir eu methodoleg ar gyfer asesu a yw llwybr ar gael a gweithdrefnau i rieni/gofalwyr neu ddysgwyr ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad.

[52] Adran 3(7) o'r Mesur
[53] Adran 3(8) o'r Mesur
[54] Gallai hyn fod gydag adrannau eraill o bob rhan o'r awdurdod lleol, yr heddlu, tirfeddianwyr preifat
[55] Assessment of walked routes to schools guidelines, Road Safety GB, 2021

## Derbyn

81. Os na all dysgwr gael ei dderbyn i'w ysgol addas agosaf, am fod mwy o geisiadau i'w ysgol addas agosaf na nifer y lleoedd sydd ar gael, gan olygu ei bod yn rhaid i'r dysgwr fynd i'r ysgol addas nesaf sydd ar gael, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnig cludiant am ddim os bydd y dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter ac oedran a fyddai'n rhoi hawl iddo gael cludiant am ddim fel arfer.

82. Mae Cod Derbyn i Ysgolion 2013[56] ('Cod 2013') yn nodi'n fanwl y gofynion statudol o ran derbyniadau ysgol. Mae paragraffau 2.48 – 2.55 o God 2013 yn amlinellu sut y gellir defnyddio pellter rhwng y cartref a'r ysgol i benderfynu a oes gan ddysgwr hawl i gael ei dderbyn i ysgol lle mae'r galw am leoedd yn golygu bod y meini prawf mewn perthynas â mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn gymwys.

## Rhoi dewisiadau rhieni ar waith

83. Mae adran 86 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol alluogi rhiant i fynegi dewis o ran yr ysgol yr hoffai i'w blentyn ei mynychu. At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir hyn fel 'rhoi dewisiadau rhieni ar waith'.

84. Mae adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor gyffredinol y dylai dysgwyr gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ac i'r graddau y bo hynny'n gydnaws â rhoi cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

85. Nid yw dewisiadau rhieni yn rhoi hawl i le yn eu dewis ysgol. Os bydd lleoedd ar gael yn yr ysgol a ffefrir gan y rhieni, dylai'r awdurdod benderfynu derbyn cais ymgeisydd fel arfer. Gall hyn olygu na fydd rhai dysgwyr yn mynychu eu hysgol addas agosaf ac y byddant yn byw gryn bellter i ffwrdd o'r ysgol y byddant yn ei mynychu.

86. Os bydd rhiant yn rhoi ei ddewis ar waith wrth benderfynu pa ysgol y bydd ei blentyn yn ei mynychu ac nad yr ysgol a ddewisir yw'r ysgol addas agosaf fel y'i pennir gan yr awdurdod lleol, nid fydd gan y dysgwr hawl i gael cludiant am ddim – hyd yn oed os bydd y dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter neu oedran a fyddai'n rhoi hawl iddo gael cludiant am ddim fel arfer.

87. Os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod trefniadau teithio'n angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb dysgwr o oedran ysgol gorfodol[57], bydd dyletswydd arno i gynnig cludiant o dan adran 4 o'r Mesur. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr mewn ysgolion, a dylai Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a swyddogion awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd i gefnogi presenoldeb drwy fynd i'r afael ag unrhyw heriau o ran cludiant, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael lle bo modd.

88. Er nad yw telerau'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim i ysgol cyfrwng Cymraeg nac ysgol ffydd nad ystyrir mai hi yw ysgol agosaf

[56] Y cod derbyn i ysgolion | LLYW.CYMRU
[57] Fel y'i diffinnir gan y meini prawf cymhwysedd

dysgwr, mae gan awdurdodau lleol, o dan adran 6 o'r Mesur, bwerau yn ôl disgresiwn i gynnwys darpariaeth o'r fath yn eu polisi teithio gan ddysgwyr. Hefyd, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol, o dan adran 10 o'r Mesur, i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Fel y nodir ym mharagraffau 119-120 rhoddir dyletswyddau ychwanegol pellach ar awdurdodau lleol drwy Safonau'r Gymraeg, ac ymrwymiadau a wneir yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u Strategaethau Iaith Gymraeg eu hunain i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal drwy addysg. Felly, dylai awdurdodau lleol fod yn defnyddio adran 6 ac adran 10 er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a chynnig cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg agosaf (paragraff 121).

## Dewisiadau dysgwyr

89. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl sylfaenol i gael ei gynnwys mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio ar ei fywyd. Mae erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan bob plentyn hawl i fynegi ei farn ar faterion sy'n effeithio arno ac i'w safbwyntiau gael sylw dyledus yn unol â'i oedran, ei ddealltwriaeth a'i aeddfedrwydd.

90. Dylai awdurdodau lleol barchu a chydnabod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP")[58] ac unrhyw ymrwymiadau a wneir mewn perthynas ag ef, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt; yn hyn o beth, yr ysgol a ffefrir a threfniadau teithio addas os bydd hynny'n briodol. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael gwybodaeth neu esboniadau am benderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud a fydd yn effeithio arnynt.

91. Pan fydd dysgwr yn rhoi ei ddewis ar waith o ran ysgol yr hoffai ei mynychu, os nad yr ysgol honno yw ei ysgol addas agosaf ni fydd gan y dysgwr hawl i gael cludiant am ddim, o dan adran 3 o'r Mesur, hyd yn oed os bydd yn bodloni'r meini prawf pellter ac oedran a ddefnyddir er mwyn cael cludiant am ddim fel arfer. Os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod trefniadau teithio'n angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb dysgwr yn yr ysgol bob dydd, bydd dyletswydd arno i gynnig cludiant o dan adran 4 o'r Mesur, a bydd modd iddo hefyd gynnig darpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn o dan adran 6 o'r Mesur.

92. Dylai ysgolion (uwch-arweinwyr a llywodraethwyr) sicrhau bod fforwm ar gael i ddysgwyr allu lleisio eu barn ar eu taith i'r ysgol, gan gynnig cyfle i fanteisio ar syniadau creadigol plant a phobl ifanc er mwyn helpu i ddod o hyd i atebion arloesol i annog opsiynau teithio mwy cynaliadwy ar gyfer eu teithiau i'r ysgol. Mae Sustrans, sef partner cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Teithiau Llesol[59], a'r rhaglen Eco-Sgolion (a gynhelir gan Cadwch Gymru'n Daclus) wedi datblygu cyfres o adnoddau i ysgolion eu defnyddio a gallant hefyd roi canllawiau a chymorth wedi'u teilwra i ysgolion; mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn cyd-fynd â sawl dangosydd yng ngwobr ansawdd genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru[60]. Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol i rannu gwybodaeth a phrofiadau gan eu dysgwyr er mwyn helpu i lywio darpariaeth teithio gan ddysgwyr a dylanwadu arni.

## Presenoldeb dysgwyr yn yr ysgol

[58] Hawliau plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU
[59] Teithiau Iach yng Nghymru – Sustrans.org.uk
[60] Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

93. O dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 mae'n drosedd i riant fethu â sicrhau bod disgybl cofrestredig yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae adran 444 (4) o Ddeddf 1996 (a ddiwygiwyd gan adran 20 o'r Mesur) yn darparu y bydd gan riant amddiffyniad rhag erlyniad os bydd awdurdod lleol wedi methu â chyflawni, pan fo'n ofynnol, ei ddyletswyddau statudol o dan adran 3 neu 4 o'r Mesur i wneud trefniadau teithio er mwyn hwyluso presenoldeb ei blentyn yn yr ysgol.

94. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr mewn ysgolion, a dylai Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a swyddogion awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd i gefnogi presenoldeb drwy fynd i'r afael ag unrhyw heriau o ran cludiant, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i ddod o hyd i atebion i gefnogi presenoldeb mewn ysgolion.

## Penderfynu ar y breswylfa arferol o dan amgylchiadau arbennig

95. Mae adran 19 o'r Mesur yn nodi'r darpariaethau ar gyfer penderfynu ar breswylfa arferol unigolyn o dan amgylchiadau arbennig.

### *Dim preswylfa arferol*

96. Os nad oes gan unigolyn breswylfa arferol, mae adran 19 (1) yn nodi, at ddibenion y Mesur, y dylid trin yr unigolyn fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y man lle mae'n preswylio am y tro.

### *Preswyliad deuol*

97. Preswyliad deuol yw pan fo gan ddysgwr fwy nag un breswylfa arferol. Mae hyn yn gymwys i ddysgwyr nad yw eu rhieni yn byw gyda'i gilydd gyda'r dysgwr yn byw yn rhannol gyda'r naill riant a'r llall[61], neu gyda rhiant a gofalwr arall, lleoliad maeth ac ati.

98. O dan erthygl 9 o CCUHP, ni ddylai plant gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni oni bai bod hynny er eu lles eu hunain. Mae'r Mesur yn darparu, pan fo gan ddysgwr breswyliad deuol, y dylid ystyried bod y ddwy breswylfa yn breswylfa arferol i'r dysgwr. Os bydd dysgwr yn byw mewn mwy na dau le o'r fath, yna dim ond y ddau le hynny sydd agosaf i'w ysgol a fydd yn gymwys[62].

99. Mae adrannau 3 a 19 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr (gan gynnwys y rhai hynny sydd â phreswyliad deuol) i'w hysgol addas agosaf os yw'r dysgwr o oedran ysgol gorfodol a bod y breswylfa (preswylfeydd) yn bodloni'r meini prawf pellter statudol. Os na fodlonir y meini prawf statudol rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant o hyd os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn hwyluso presenoldeb dysgwr yn yr ysgol a gallant hefyd ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn o dan adran 6 o'r Mesur

100. Mae adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor gyffredinol y dylai dysgwyr gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ac i'r graddau y bo hynny'n gydnaws â rhoi cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

[61] Mae 'rhiant' yn golygu rhiant o fewn yr ystyr a nodir yn adran 576(1) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n unigolyn ac sy'n cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/576

[62] Adran 19(6) o'r Mesur.

101. Fel arfer, yr eiddo y caiff budd-daliadau'r plentyn eu talu iddo a'r cyfeiriad sydd wedi'i gofrestru â'r ysgol fydd y brif breswylfa.

102. Pan fo gan ddysgwr ddwy breswylfa arferol sydd wedi'u lleoli mewn dau awdurdod lleol cyfagos yng Nghymru, dylai'r naill awdurdod lleol a'r llall gydweithio â'i gilydd a byddant yn gyfrifol am drefniadau teithio'r dysgwr pan fo'r dysgwr yn preswylio yn eu hardal, yn unol â deddfwriaeth (adran 19) a pholisïau teithio gan ddysgwyr a derbyniadau ysgol yr awdurdod lleol perthnasol.

103. Mae dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau cludiant ar gyfer plentyn o dan y Mesur ond yn berthnasol i blant sy'n preswylio fel arfer mewn awdurdod lleol yng Nghymru. Felly nid oes rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu cludiant am ddim i breswylfeydd yn Lloegr ac oddi yno.

## Meini prawf pellter

104. Mae adran 3 o'r Mesur yn nodi'r meini prawf pellter lle y bydd gan ddysgwyr hawl i gael cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf ac oddi yno.

- Mae plant ysgol gynradd sy'n byw fwy na dwy filltir i ffwrdd o'u hysgol yn gymwys i gael cludiant am ddim
- Mae plant ysgol uwchradd sy'n byw fwy na thair milltir i ffwrdd o'u hysgol yn gymwys i gael cludiant am ddim

105. Defnyddir y pellteroedd statudol i benderfynu a yw dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Os bydd dysgwr yn byw o fewn y pellter statudol (ac nad yw'n gymwys i gael cludiant am ddim am unrhyw un o'r rhesymau eraill a nodir gan y Mesur), y rhiant/gofalwr fydd yn gyfrifol am drefnu cludiant ei blentyn i'r ysgol. Nid oes disgwyl y bydd yn rhaid i'r dysgwr gerdded. Mater i'r rhiant/gofalwr fydd penderfynu pa drefniadau fyddai'n addas ar gyfer ei blentyn.

106. O dan adran 3(7) o'r Mesur dylid mesur y pellter yn ôl y 'ffordd fyrraf sydd ar gael'. Mae adran 3 (8) yn diffinio y caiff llwybr ei ystyried yn un sydd ar gael "os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun neu os yw'n ddiogel i'r cyfryw blentyn gerdded ar hyd y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oedran y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr". Yn y cyd-destun hwn, mae hebryngwr yn cyfeirio at berson cyfrifol i gydgerdded â'r dysgwr – gall fod yn rhiant, yn ofalwr, yn ffrind teulu neu'n frawd neu chwaer hŷn.

107. Pan fydd awdurdod lleol yn asesu a yw'r pellter rhwng cartref dysgwr a'i ysgol yn fwy na'r pellter statudol rhagnodedig, rhaid iddynt fesur y llwybr byrraf y gall plentyn, gyda hebryngwr yn ôl yr angen, gerdded ar ei hun yn rhesymol ddiogel[63] (paragraffau 76-80). Nid y pellter byrraf ar y ffordd fydd hyn o reidrwydd. Gall y pellter hefyd gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau eraill a mynedfeydd amgen i'r ysgol.

108. Dylai awdurdodau lleol amlinellu yn eu polisïau teithio gan ddysgwyr y fethodoleg a ddefnyddir i fesur y pellter rhwng cyfeiriad yr ysgol a'r cartref. Er y gellir cymryd mesuriadau ar gyfer asesu o eiddo'r ysgol i gartref y dysgwr, nid oes rhaid i awdurdodau

[63] Fel yr amlinellir yn *Assessment of Walked Routes to School 2021*, Road Safety GB a ROSPA

lleol, o dan delerau'r Mesur, ddarparu cymorth cludiant i ddysgwr cymwys yn uniongyrchol rhwng y ddau gyfeiriad hyn.

109. Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd y ddarpariaeth cludiant i'r ysgol ragnodedig o fan casglu a gollwng diogel a hygyrch (gallai hyn fod hyd at filltir), ar yr amod y byddent yn gallu gwneud hynny'n rhesymol ddiogel (fel y diffinnir ym mharagraffau 76-80), yn cael eu hebrwng gan rieni/gofalwr os bydd angen. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu eu polisïau teithio gan ddysgwyr i gyd-fynd â'r Hierarchiaeth Drafnidiaeth a nodir yn Llwybr Newydd[64] er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac felly ni ddylai unrhyw fannau casglu a gollwng dynodedig gynyddu'r defnydd o gerbydau preifat yn anfwriadol.

110. Os bydd asesiad yr awdurdod lleol yn canfod nad yw llwybr 'ar gael' am nad yw'n ddiogel ac am nad oes llwybr arall 'ar gael' o fewn y priod drothwy pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'w ysgol addas agosaf (er bod y pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr). Mewn achosion o'r fath, bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwr i'w ysgol addas agosaf ac oddi yno. Os na fydd y plentyn yn mynychu ei ysgol addas agosaf ac os na fydd y llwybr 'ar gael', nid fydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim.

111. Argymhellir mai awdurdodau lleol a ddylai benderfynu a yw llwybrau i ysgolion ar gael, yn unol â dogfen ganllawiau Road Safety GB a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) – *Assessment of Walked Routes to School.*

## Cludiant i ddysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol

### *Dysgwyr Ôl-16*

112. Yn unol ag adran 2 o'r Mesur, rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr o dan 19 oed sy'n cael addysg neu hyfforddiant a ariennir gan yr awdurdod ac sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed ond a ddechreuodd gwrs pan oeddent o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw.

113. Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, wrth asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2(4) o'r Mesur, "rhaid i awdurdod lleol roi sylw yn benodol" i anghenion dysgwyr sy'n "bersonau anabl" a dysgwyr "a chanddynt anawsterau dysgu". Mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau gorfodol a chanllawiau ar faterion yn ymwneud â chludiant yng nghyd-destun paratoi CDU ar gyfer pobl ifanc hyd at 24 oed i'w gweld yn y Cod ADY[65].

114. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau cludo yn ôl disgresiwn ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau cludiant yn ôl disgresiwn i'w gweld ym mharagraffau 146-156.

115. Dylai awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth teithio i ddysgwyr ôl-16. Dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth hon, a dylai gynnwys manylion am yr holl ddarpariaeth a chymorth sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 (nid dim ond yr hyn a ddarperir

[64] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU
[65] Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | LLYW.CYMRU

gan yr awdurdod lleol). Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn y deunyddiau a gyhoeddir ynghylch y polisïau a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer teithio gan ddysgwyr.

***Dysgwyr o dan Oedran Ysgol Gorfodol (Addysg Feithrin).***

116. Mae adran 2(1) o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd o dan oedran ysgol gorfodol (o dan 5 oed), sy'n mynychu addysg feithrin ac sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod.

117. Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i unrhyw ddysgwr meithrin o dan oedran ysgol gorfodol ac sy'n mynychu meithrinfa.

118. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau cludo yn ôl disgresiwn ar gyfer dysgwyr o dan oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu meithrinfa. Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau cludiant yn ôl disgresiwn i'w gweld ym mharagraffau 146-156.

## Hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 10)

119. Mae nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol sylweddol wedi digwydd er mwyn helpu i hybu'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ers i'r fersiwn flaenorol o'r canllawiau hyn gael ei chyhoeddi. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, sef Mesur y Gymraeg 2011, a Safonau'r Gymraeg wedi hynny, wedi gosod dyletswyddau pellach ar awdurdodau lleol i sicrhau y caiff cyfleoedd eu creu i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau hyn yn ychwanegu at adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr a **rhaid** cydymffurfio â nhw yn unol â hynny.

120. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau y caiff Safonau perthnasol y Gymraeg[66] (paragraffau 123-127), Strategaeth Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol (paragraff 128) a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol eu hystyried wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr[67]

***Adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr***

121. Mae adran 10 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r Mesur cyfan. Felly, **rhaid** i awdurdodau lleol **hybu** mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth gyflawni ***unrhyw*** swyddogaethau o dan y Mesur.

122. Mae Cymraeg 2050[68] yn nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o'r weledigaeth strategol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Felly, disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael, gan gynnwys adran 10 o'r Mesur, i gyfrannu at gyrraedd y targedau uchelgeisiol hyn.

***Safonau'r Gymraeg***

---

[66] Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (legislation.gov.uk)
[67] Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
[68] Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg. Llywodraeth Cymru

123. Cafodd Safonau'r Gymraeg eu creu gan Fesur y Gymraeg 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn hybu ac yn hwyluso'r Gymraeg, ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

124. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod swyddogaethau a gyflawnir o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn cydymffurfio â'r Safonau a osodwyd gan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ('Rheoliadau 2015')[69]. Mae'r holl safonau'n berthnasol, ond isod ceir safonau penodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth ffurfiol, adolygu neu addasu polisïau teithio gan ddysgwyr.

125. Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau llunio polisi 88-97, sydd yn Atodlen 2 o Reoliadau 2015, wrth wneud pob penderfyniad polisi. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir 'ystyriaeth gydwybodol' i effaith penderfyniadau a wneir o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr ar y Gymraeg (yn ehangach).

126. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar y canlynol– (a) cyfleoedd i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried sut y gellir llunio'r polisi mewn ffordd a fydd yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, neu'n peidio â chael effaith andwyol ar y (a) cyfleoedd i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg[70].

127. Mae'r safonau llunio polisi hefyd yn nodi dyletswyddau sy'n ymwneud â'r broses o ymgynghori ar ddatblygiadau polisi arfaethedig. **Rhaid** i ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg; dylai'r broses ddarganfod a gwerthuso'r prif faterion sy'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg; dylai geisio safbwyntiau ar effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg pan fydd awdurdodau lleol yn llunio, yn adolygu ac yn addasu polisïau sy'n deillio o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Dylai'r Asesiad o'r Effaith ystyried yr effaith ar y Gymraeg gan gynnwys addysg yn ogystal â'r gymuned ehangach. **Rhaid** i'r Asesiad gael ei gynnwys fel rhan o'r ddogfen ymgynghori neu ei gyhoeddi ochr yn ochr â hi.

### *Strategaeth Hybu'r Gymraeg*

128. Mae Safon 145, sydd yn Atodlen 4 o Reoliadau 2015, yn nodi'r gofynion i awdurdodau lleol ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Rhaid i'r Strategaeth nodi sut y bydd awdurdod lleol yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ei ardal. Dylai polisïau teithio gan ddysgwyr awdurdodau lleol gael eu datblygu i adlewyrchu uchelgeisiau strategol yr awdurdod i hybu'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

### *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*

129. Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fel y nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019[71], rhaid

---

[69] Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad cyrff penodol (Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau parciau cenedlaethol). Mae'r safonau'n cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

[70] Safonau 88, 89 a 90

[71] Paragraff 20 o Atodlen 1 i [Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019/1489]

i bob awdurdod lleol gynnwys datganiad yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n nodi sut y bydd, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill fel y bo angen, yn hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant dysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Dylai awdurdodau lleol hefyd gynnwys gwybodaeth yn eu polisïau teithio gan ddysgwyr am y ffordd y bydd y polisïau'n hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r datganiad yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

## Cludiant i ysgolion enwadol

130. O dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, mae gan ddysgwr hawl i gael cludiant am ddim i ysgol enwadol os bydd yr awdurdod lleol o'r farn mai'r ysgol honno yw ysgol addas agosaf y dysgwr.

131. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau cludo yn ôl disgresiwn ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf; gallai hyn gynnwys darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n dewis ysgol ffydd. Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau cludiant yn ôl disgresiwn i'w gweld ym mharagraffau 146-156.

132. Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhoi hawl i rieni ddewis i'w plant gael eu haddysgu yn unol â'u safbwyntiau crefyddol a'u safbwyntiau eraill. Hefyd, yn unol ag Erthygl 14 o CCUHP, mae gan blant hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, ar yr amod nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gan rieni hawl benodol i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgol o'r fath, nac i'w hawdurdod lleol wneud trefniadau iddynt deithio i unrhyw ysgol o'r fath ac oddi yno. Serch hynny, dylai awdurdodau lleol roi sylw i ddarpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a CCUHP wrth ystyried unrhyw gais gan riant am gymorth teithio i ysgol y mae wedi'i dewis oherwydd ei grefydd neu gred. Er enghraifft, ni ddylent ddilyn polisi cyffredinol sy'n dweud nad fyddant byth yn rhoi cymorth teithio i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Os cânt gais gan riant am drefniadau teithio i ysgol o'r fath, dylent ystyried a fyddai'n briodol arfer eu pwerau yn ôl disgresiwn o dan adran 6 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

133. Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ddarpariaethau teithio i ysgolion enwadol. Dylai'r wybodaeth hon fod yn hawdd cael gafael arni a darparu manylion am yr holl ddarpariaeth a chymorth sydd ar gael i ysgolion enwadol (nid dim ond yr hyn a ddarperir gan yr awdurdod lleol). Dylai'r wybodaeth gael ei chynnwys yn y deunyddiau a gyhoeddir am y polisïau a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer teithio gan ddysgwyr.

## Dysgwyr anabl a dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

134. O dan adrannau 2 (4)(a) a (4)(b) o'r Mesur, wrth asesu anghenion teithio dysgwyr yn ei ardal, rhaid i awdurdod lleol roi sylw penodol i nifer o ffactorau gan gynnwys anghenion dysgwyr anabl a'r rhai ag ADY.

135. O ran darparu cludiant i ddysgwyr, wrth benderfynu a yw plentyn yn mynychu ei ysgol addas agosaf, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried addasrwydd yr ysgol honno[72] drwy roi sylw i (ymhlith pethau eraill) unrhyw ADY sydd gan y dysgwr[73] a/neu CDU y dysgwr.

[72] Yn unol â pholisi derbyniadau ysgol yr awdurdod lleol
[73] Adran 3(6) o'r Mesur

136. Mae'r Mesur yn darparu bod “anhawster dysgu”, mewn perthynas ag unigolyn, yn golygu– (a) llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r mwyafrif o bobl o'r un oedran (b) anabledd sy'n atal neu'n rhwystro'r unigolyn hwnnw rhag defnyddio cyfleusterau o fath a ddarperir mewn mannau perthnasol, ond ni ddylid ystyried bod gan unigolyn anhawster dysgu dim ond am fod yr iaith (neu'r math o iaith) y mae'r unigolyn yn cael ei addysgu ynddi neu y bydd yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu fath o iaith) sydd wedi cael ei siarad ar unrhyw adeg yng nghartref yr unigolyn[74].

137. O dan adran 3 o'r Mesur, os penderfynir mai ysgol benodol neu sefydliad arall a enwir mewn CDU ar gyfer dysgwr[75] yw ysgol *addas* agosaf dysgwr a bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael cludiant am ddim, bydd yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr hwnnw.

138. Bydd trefniadau cludiant addas ar gyfer dysgwr ag ADY yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y dysgwr a'r llwybr y bydd yn rhaid iddo deithio ar ei hyd, a dylid eu hystyried fel rhan o'i CDU. Dylai trefniadau gael eu gwneud drwy ymgynghori â'r dysgwr, ei riant/gofalwr a'r awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am y CDU.

139. Mae'r Cod ADY[76] yn cynnwys canllawiau ar ystyriaethau cludiant sy'n gysylltiedig â pharatoi CDU. Dylai'r awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am y CDU ymgysylltu â swyddogion yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu cludiant, a hynny cyn gynted â phosibl, er mwyn deall y gofynion cludiant yn llawn, a chytuno ar y rolau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth gaffael unrhyw ofynion cludiant a sicrhau adnoddau ar eu cyfer, fel y nodir yn y CDU.

140. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys nifer o ddyletswyddau sy'n berthnasol pan fo awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Mesur, gan gynnwys:

- Mae adran 29(7) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud addasiadau rhesymol penodol mewn perthynas ag anabledd wrth ddarparu gwasanaethau neu gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Ni all awdurdod godi tâl am unrhyw addasiadau rhesymol y mae'n eu gwneud o dan y ddyletswydd hon. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn berthnasol i natur trefniadau cludo neu deithio y mae'r awdurdod lleol yn eu gwneud o dan y Mesur. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau a wneir ganddo yn galluogi dysgwyr anabl i gael budd yn yr un ffordd â'r rhai nad ydynt yn anabl – er enghraifft, drwy sicrhau bod y cludiant a ddarperir yn hygyrch ac yn ddiogel i'r dysgwr anabl.

- Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth arfer eu pwerau a chyflawni eu dyletswyddau, *i roi ystyriaeth briodol* i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl â nodweddion gwarchodedig a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. Dylai awdurdodau lleol bob amser ystyried a fydd y polisïau'n cael unrhyw effeithiau andwyol ehangach ar grwpiau gwarchodedig ac a fyddai'n briodol cymryd camau i liniaru'r effeithiau hynny. (gweler yr Atodiad)

---

[74] Adran 24(1) o'r Mesur
[75] O dan adran 14 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
[76] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/220622-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021%20%282%29.pdf

141. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i ddarparu cludiant am ddim na chludiant a gymorthdelir i ddysgwyr dros 16 oed, p'un a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ai peidio. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau yn ôl disgresiwn yn adran 6 o'r Mesur i roi cymorth.

142. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gall pobl ifanc hyd at 25 oed ag ADY gael cynllun datblygu unigol (CDU). Mae'r Cod ADY yn cynnwys canllawiau ar ystyriaethau cludiant sy'n gysylltiedig â pharatoi CDU. Dylai'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU ymgysylltu â swyddogion yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu cludiant, a hynny cyn gynted â phosibl, er mwyn deall y gofynion cludiant yn llawn, a chytuno ar y rolau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth gaffael unrhyw ofynion cludiant a sicrhau adnoddau ar eu cyfer, fel y nodir yn y CDU. Mae'r dyletswyddau deddfwriaethol ar gyfer y ddarpariaeth hon yn rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a statws statudol CDU, nid y Mesur.

143. Mae adran 9 o'r Mesur yn gwahardd y trefniadau teithio a wneir o dan adrannau 3, 4 a 6 rhag gwahaniaethau rhwng gwahanol gategorïau o ddysgwyr. Rhaid peidio â thrin dysgwyr o oedran ysgol gorfodol mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na dysgwyr o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir. Rhaid peidio â thrin dysgwyr eraill sy’n cael addysg neu hyfforddiant amser llawn mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na dysgwyr o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir. Yn yr un modd, ni ddylid gwahaniaethu rhwng y rhai sydd o'r un oedran a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr anabl neu ddysgwyr sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy’n mynychu sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir, a’r rhai sy’n mynychu ysgolion a gynhelir. Mae’n diogelu’r egwyddor bod dysgwyr sy’n elwa o drefniadau teithio yn cael eu trin yn deg.

144. Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a gweithredwyr cludiant yn briodol er mwyn sicrhau mai'r unig wybodaeth a ddarperir i weithredwyr am ddysgwyr yw gwybodaeth y mae angen i'r gweithredwyr ei chael er mwyn sicrhau y gellir darparu cludiant priodol ar gyfer y dysgwyr. Fel rhan o'r gweithdrefnau caffael ar gyfer tendro, gan gynnwys pan fyddant yn caffael cludiant y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr anabl, rhaid i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn perthynas â data personol, gan gynnwys data personol sensitif. Ni ddylai dogfennau tendr ddatgelu enwau'r dysgwyr sydd i'w cludo na chynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod y dysgwr.

145. Dylai fod gan awdurdodau lleol bolisi clir a chyson ar ddarparu cludiant i ddysgwr ag ADY. Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, y cyrff perthnasol sy'n gyfrifol am CDUau, ac awdurdodau cyfagos wrth ddatblygu polisïau ADY er mwyn sicrhau cysondeb ar draws ffiniau awdurdodau ac archwilio opsiynau ar gyfer gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig a chomisiynu contractau os bydd hynny'n berthnasol.

## Trefniadau cludo yn ôl disgresiwn

146. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniant y maent yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn helpu dysgwyr i deithio i fan lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno. Mae'r pŵer yn gymwys mewn perthynas â dysgwr sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod.

147. Nid yw'r pŵer i wneud trefniadau cludo yn ôl disgresiwn yn yr un fath â'r ddyletswydd i wneud trefniadau cludo a theithio[77]. Nid oes rhaid i awdurdod lleol ddefnyddio ei bŵer yn ôl disgresiwn i gynnig trefniadau teithio am ddim na rhai a gynorthwyir.

148. Ymhlith yr enghreifftiau o amgylchiadau lle y gellid defnyddio darpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn mae:

- Cludiant ar gyfer dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol (e.e: addysg neu hyfforddiant ôl-16)
- Cludiant i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf (e.e. er mwyn hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg neu gefnogi presenoldeb mewn ysgolion ffydd)
- Cludiant i ddysgwyr sy'n byw o fewn y terfyn pellter statudol sy'n berthnasol i oedran y plentyn, neu'r terfyn incwm rhieni (e.e. os bydd y rhieni'n cael cymorth incwm neu gredyd treth gwaith)

149. Mae adran 10 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Mesur. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth wneud unrhyw drefniadau teithio yn ôl disgresiwn.

150. Pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau o dan adran 6 i wneud trefniadau teithio yn ôl disgresiwn, gellir codi tâl am y trefniadau hyn (paragraff 170)

151. Os bydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau o dan adran 6, yn unol ag adran 9 o'r Mesur, rhaid i'r awdurdod sicrhau nad yw'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu rhwng plant o oedran ysgol gorfodol mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir a dysgwyr o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir, dysgwyr sy'n hŷn na'r oed ysgol gorfodol sy'n cael addysg neu hyfforddiant amser llawn mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir a dysgwyr o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir. Yn yr un modd, ni ddylid gwahaniaethu rhwng y rhai sydd o'r un oedran a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr anabl neu ddysgwyr sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n mynychu sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion a gynhelir.

152. Yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, rhaid i awdurdodau lleol[78] gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau ar gyfer darparu cludiant yn ôl disgresiwn yn eu polisi teithio gan ddysgwyr.

153. Os bydd awdurdod lleol yn defnyddio'r pŵer o dan adran 6 i wneud trefniadau cludo yn ôl disgresiwn, dylai awdurdodau lleol ddatgan yn glir bod y ddarpariaeth yn cael ei rhoi fel polisi yn ôl disgresiwn ac y gellir ei diddymu, gan nodi'r telerau posibl ar gyfer ei thynnu'n ôl.

154. Os bydd awdurdod lleol yn dewis defnyddio'r pŵer o dan adran 6 i wneud trefniadau cludo yn ôl disgresiwn, bydd gan yr awdurdod lleol hefyd y pŵer i ddiddymu'r ddarpariaeth hon yn nes ymlaen. Wrth wneud hyn, dylai'r awdurdod ddilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer tynnu darpariaeth cludiant yn ôl yn unol â'i brotocolau polisi perthnasol. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried eu dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg wrth wneud unrhyw ddiwygiadau i drefniadau cludo yn ôl disgresiwn.

---

[77] Darpariaethau y mae'n **rhaid** i awdurdod lleol eu darparu i ddysgwyr penodol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd sy'n golygu bod gan y dysgwyr hynny hawl i gael cludiant am ddim yw darpariaethau statudol.

[78] Rheoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

155. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu newid neu ddiddymu'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn, rhaid iddo gyhoeddi'r wybodaeth cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd pan ddaw'r newidiadau i rym yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009[79].

156. Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion ac awdurdodau cyfagos wrth ddatblygu darpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws ffiniau awdurdodau ac archwilio opsiynau ar gyfer gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig a chomisiynu contractau os bydd hynny'n berthnasol.


## Hybu dulliau teithio cynaliadwy

157. Mae adran 11 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru **hybu'r** defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur. Yn y cyd-destun hwn, ystyr dulliau teithio cynaliadwy yw dulliau teithio a all wella'r naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt:

- Llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio
- Llesiant amgylcheddol ardal yr awdurdod lleol i gyd neu ran ohoni

158. Felly, dylai awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd wrth asesu anghenion a gwneud trefniadau teithio.

159. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu eu polisïau teithio gan ddysgwyr gan ddefnyddio egwyddorion yr hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy lle y caiff cerdded, olwyno, beicio, sgwtera[80] a thrafnidiaeth gyhoeddus eu blaenoriaethu uwchlaw opsiynau cludiant preifat lle bo'r rhain ar gael.




*Hierarchiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy*

160. Dylai awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd rhwng adrannau i hybu dulliau teithio cynaliadwy a diogel; mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau lleol a rhanbarthol. Dylai awdurdodau weithio gydag asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill fel ysgolion a gweithredwyr cludiant i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o

[79] Yn unol â Rheoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009
[80] Nid sgwteri trydan

ddatblygu adnoddau, llwybrau a chynlluniau yn y dyfodol er mwyn hybu dulliau teithio cynaliadwy i ysgolion a mannau dysgu eraill. Gellir sicrhau darbodion maint drwy greu cymunedau ymarfer, safoni contractau rhanbarthol, a chysoni polisïau.

161. Dylai timau Teithio Llesol o fewn awdurdodau lleol fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a chyllid i gefnogi mentrau teithio llesol diogel gan Lywodraeth Cymru, a ffynonellau perthnasol eraill i wella diogelwch ar gyfer cerdded, olwyno, beicio a sgwtera i ysgolion. Gallai'r rhain gael eu hysgogi a'u llywio gan asesiad o anghenion a gynhelir yn unol â thelerau'r Mesur a/neu drwy broses yr ysgolion eu hunain o ddatblygu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol.

162. Dylai timau Teithio Llesol o fewn awdurdodau lleol gydweithio â thimau trafnidiaeth ac addysg er mwyn helpu cyrff llywodraethu i ddeall y rôl allweddol y gallan nhw, a'r uwch-arweinwyr mewn ysgol, ei chyflawni er mwyn hybu teithio cynaliadwy i ysgolion.

163. Mae cymorth ar gael i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gynlluniau teithio llesol[81] gan gynnwys rhannu arferion gorau, cydlynu hyfforddiant a chael gafael ar adnoddau drwy sefydliadau fel y rhai a ddatblygir gan Sustrans[82], Living Streets (traciwr WOW[83]) sy'n cyfrannu at achrediad Eco-Sgolion a Gwobr Ysgolion Iach Cymru.

164. Dylai awdurdodau lleol ddarparu a hyrwyddo gwybodaeth sy'n amlinellu sut y caiff mannau dysgu eu gwasanaethu gan y canlynol

- Llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
- Llwybrau teithio llesol (gan ddefnyddio'r mapiau teithio llesol a ddatblygir gan awdurdodau lleol)
- Llwybrau cerdded a beicio diogel a hygyrch, gan gynnwys troedffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beiciau a llwybrau ceffylau
- Llwybrau bysiau rhwng y cartref a'r ysgol a gaiff eu caffael gan awdurdodau lleol

165. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys trefniadau megis y canlynol

- Hyfforddiant beicio
- Hyfforddiant diogelwch ar y ffordd
- Hyfforddiant teithio'n annibynnol
- Cynlluniau hyrwyddo cerdded
- Cynlluniau rhannu ceir
- Cynlluniau parcio a cherdded/parcio a theithio
- Parcio beiciau a sgwteri

166. Mae adran 21 o'r Mesur yn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad i gyrff llywodraethu ysgolion penodol yn mynnu eu bod yn newid amserau sesiynau'r ysgol lle y byddai hynny'n hybu dulliau teithio cynaliadwy neu'n gwella effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd trefniadau teithio. Mae Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu newid amserau sesiynau ysgol.

167. Mae adrannau 32A i 32C o Ddeddf Addysg 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, yn nodi pwy sy'n gyfrifol am benderfynu ar y canlynol:

---

[81] Pecyn Cymorth Cynllun Ysgol Teithio Llesol
[82] Teithiau Iach yng Nghymru – Sustrans.org.uk
[83] Living Streets Cymru | Living Streets

- dyddiadau tymhorau ysgol (adran 32A o Ddeddf Addysg 2002)
- gwyliau ysgol
- amserau sesiynau ysgol (adran 32C o Ddeddf Addysg 2002)

168. O dan adran 32C o Ddeddf Addysg 2002, cyfrifoldeb corff llywodraethu ysgol a gynhelir yw penderfynu ar amserau'r sesiynau ysgol ar gyfer yr ysgol. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, dylai cyrff llywodraethu ystyried effaith newid amserau sesiynau ysgol ar wneud trefniadau teithio'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae adran 32C (2) yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol (drwy ddarpariaethau'r Mesur) roi hysbysiad ysgrifenedig i gyrff llywodraethu ar gyfer penderfynu ar amserau sesiynau'r ysgol er mwyn hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, neu wella effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd trefniadau teithio a wnaed neu a wneir. Dylid gwneud hyn yn unol â darpariaethau adran 32C o Ddeddf Addysg 2002 a rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno. Anogir cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i archwilio cyfleoedd a gynigir gan y pwerau hyn.

169. Yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae'n rhaid darparu a chyhoeddi unrhyw newidiadau i drefniadau teithio gan ddysgwyr sy'n digwydd o ganlyniad i ddiwygiadau i amserau sesiynau ysgolion erbyn 1 Hydref cyn y flwyddyn academaidd y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi[84].

## Codi tâl am gludiant

170. Ni chaiff awdurdodau lleol godi tâl am drefniadau cludiant y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol o dan adrannau 3 a 4 o'r Mesur.

171. Os bydd awdurdod yn gwneud y trefniadau cludiant neu deithio ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod arall, gall yr awdurdod lleol adennill costau gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli[85].

172. Os bydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau o dan adran 6 i ddarparu trefniadau teithio yn ôl disgresiwn, gellir codi tâl am y trefniadau hyn.

173. Ar gyfer dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, nid oes unrhyw gyfyngiad ar godi tâl. O ran dysgwyr o oedran ysgol gorfodol, rhaid cod tâl yn unol ag adran 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o'r Mesur).

174. Mae adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 yn darparu ar gyfer cofrestru gwasanaethau bysiau lleol yn orfodol â'r Comisiynydd Traffig. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gofrestru pob gwasanaeth sy'n cludo teithwyr sy'n talu o dan adran 6 o Ddeddf 1985. Nid yw'r gofyniad hwnnw'n gymwys pan ddarperir y gwasanaeth yn unol â rhwymedigaeth a osodir ar awdurdod lleol i wneud trefniadau cludiant a threfniadau teithio eraill o dan adrannau 3 neu 4 o'r Mesur. O dan adran 46 o Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981, gall awdurdod lleol ddefnyddio bws ysgol i gludo teithwyr sy'n talu pan fydd (neu pan na fydd) yn cael ei ddefnyddio i gludo dysgwyr sydd â hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Mae'n

[84] Rheoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009.
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/569/contents/made/welsh
[85] Adran 18 o'r Mesur

rhaid i weithredwyr dan gontract gofrestru unrhyw wasanaethau lle mae dysgwyr nad oes ganddynt hawl i gael cludiant am ddim yn cael eu cludo ar ôl iddynt dalu am docyn.

175. Rhaid i awdurdodau lleol sy'n gwneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ar wasanaeth bysiau yn unol ag adran 6 o'r Mesur y codir tâl amdanynt gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fysiau a choetsys â **mwy na 22 o seddi** a ddefnyddir ar wasanaethau lleol neu reolaidd (gan gynnwys teithiau rhwng y cartref a'r ysgol) sy'n cludo o leiaf un teithiwr sy'n talu gael nodweddion sy'n galluogi pobl anabl i fynd ar y bws ac oddi arno a theithio'n gyfforddus ac yn ddiogel. Wrth gomisiynu gwasanaethau rhwng y cartref a'r ysgol sydd o fewn cwmpas Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000, dylai awdurdodau lleol gaffael cerbydau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf lle bo modd, ond gallant gaffael cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf lle bo angen os bydd unrhyw eithriadau'n gymwys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Bus and coach accessibility and the Public Service Vehicles Accessibility Regulations 2000 – GOV.UK (www.gov.uk).

## Pwerau i roi canllawiau a chyfarwyddiadau

176. O dan adran 15 o'r Mesur, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Mesur.

177. Cyhoeddir y ddogfen ganllawiau hon o dan adran 15 o'r Mesur

178. Gall Gweinidogion Cymru hefyd roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud trefniadau teithio gan ddysgwyr o dan adrannau 3, 4 neu 6 o'r Mesur. Gellir rhoi cyfarwyddiadau o'r fath i un neu fwy o awdurdodau lleol neu awdurdodau lleol yn gyffredinol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo mewn perthynas ag achosion unigol neu faterion polisi cyffredinol. Gellir arfer y pŵer p'un a yw awdurdod lleol wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ai peidio. Nid yw'n disodli'r pwerau cyfarwyddo mwy cyffredinol sydd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 496-497A o Ddeddf Addysg 1996 nac yn effeithio arnynt.

# Rhan 2

## Asesu 'llwybr sydd ar gael' i'r ysgol

### Trosolwg

1. Mae adran 2 o'r Mesur yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o anghenion teithio dysgwyr yn eu hardal, gan gynnwys asesiadau o 'natur y ffyrdd y gellid yn rhesymol ddisgwyl i ddysgwyr eu dilyn i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant'.

2. Mae adran 3 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol o dan amgylchiadau penodol ac yn ddarostyngedig i amodau penodol. Mae'r adran yn darparu ar gyfer system o hawl i gael cludiant am ddim a ddiffinnir drwy gyfeirio at b'un a yw dysgwyr yn cael addysg gynradd neu uwchradd ac a ydynt yn byw bellter penodol o'r mannau lle maent yn cael addysg neu hyfforddiant neu y tu hwnt i'r pellter hwnnw.

3. Dylid mesur y pellter ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael. Ystyrir bod llwybr "ar gael" os yw'n "ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu os yw'n ddiogel i'r cyfryw blentyn gerdded y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oed y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr."[86] Yn y cyd-destun hwn, mae hebryngwr yn cyfeirio at berson cyfrifol i gydgerdded â'r dysgwr – gall fod yn rhiant, yn ofalwr, yn ffrind teulu neu'n frawd neu chwaer hŷn.

4. Datblygwyd y canllawiau hyn er mwyn helpu awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol ar gael a rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr, dysgwyr ac ysgolion am y ffordd y caiff llwybrau eu hasesu.

5. Dylai awdurdodau lleol gynnal asesiadau 'ffisegol' a 'chymdeithasol' o lwybrau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod ar gael.

6. Canllaw yw'r meini prawf a nodir ac ni allant gynnig atebion pendant i bob sefyllfa y gellir ei hwynebu.

7. Dylai asesiad gael ei gynnal gan swyddog o fewn awdurdod lleol sydd â chymwysterau addas a/neu ymgynghorydd annibynnol sydd â chymwysterau addas. Bydd angen iddo allu arfer ei farn broffesiynol wrth ddilyn y canllawiau hyn.

8. Pan fydd y trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr cymwys a wneir gan awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr gerdded i fannau casglu ar gyfer cludiant i ddysgwyr ac oddi yno, cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr fydd penderfynu ar ffordd ddiogel o deithio i fannau casglu/gollwng. Y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol yw cynnig llwybr *cerdded* diogel pan ddisgwylir i ddysgwr gerdded rhwng y cartref a'r ysgol (gweler adran 3(8) o'r Mesur), nid pan fydd yn cerdded rhwng y cartref a man casglu/gollwng.

9. O dan Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i roi ei farn ar yr hyn a ddylai ddigwydd ac i bobl wrando ar y farn honno; dylai awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac ysgolion

[86] Adran 3(8) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

yn cael cyfle i fwydo i mewn i'r broses asesu a chael mynediad at unrhyw asesiadau a gynhelir. Mae templedi wedi cael eu darparu i hwyluso'r ymgysylltu hwn. Datblygwyd y canllawiau hyn er mwyn helpu plant yng Nghymru i arfer eu hawl o dan Erthygl 19 o CCUHP i beidio â chael eu niweidio ac i dderbyn gofal a chael eu cadw'n ddiogel.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddorion a'r weithdrefn asesu llwybrau sydd yn y canllawiau, a luniwyd gan Road Safety GB a ROSPA, https://roadsafetygb.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/RSGB-WRTS-04.21.pdf.[87] Datblygwyd *Y Weithdrefn Asesu – Llwybrau* (paragraffau 12-22) yn seiliedig ar y canllawiau hyn a dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â chanllawiau Road Safety GB.

11. Ceir ystyriaethau 'ffisegol' ychwanegol y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru eu hystyried wrth gynnal asesiadau, yn ogystal â materion 'cymdeithasol' fel yr amlinellir ym mharagraffau 50-59 o'r ddogfen hon. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried yr Offer Archwilio Llwybrau Cerdded a Beicio a ddatblygwyd fel rhan o ganllawiau ac adnoddau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru wrth ystyried addasiadau i lwybrau.

### *Y Weithdrefn Asesu – Llwybrau*

12. Mae cwmpas yr adran hon yn ymdrin â'r berthynas rhwng dysgwyr a thraffig. Fel cerddwyr, bydd dysgwyr yn wynebu nifer o beryglon a nodir isod. Bydd cerdded ar hyd y llwybr yn galluogi aseswyr risg i ddarganfod peryglon.

13. Dylid asesu'r llwybr cyfan o gartref y dysgwr i'r gât ysgol agosaf, a hynny ar adeg pan fyddai fel arfer yn teithio i'r ysgol ac oddi yno.

14. Wrth asesu diogelwch llwybr cerdded posibl, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

- Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau unigol. Dylid cynnal yr asesiad ar droed lle bo modd. Gall defnyddio delweddau strydoedd ar-lein ddangos bod llwybr yn beryglus, ond mae'n bosibl y bydd angen cynnal arolwg safle hefyd. Hyd yn oed os bydd y delweddau ar-lein yn awgrymu nad yw llwybr yn beryglus, bydd yn rhaid cynnal arolwg safle o hyd. Noder: dylech fod yn ymwybodol o oedran y delweddau gan ei bod yn bosibl na fyddant yn dangos newidiadau diweddar i'r llwybr.

- Tybir y bydd dysgwyr yn cael eu hebrwng yn ôl yr angen gan riant/gofalwr cyfrifol.

- Tybir y bydd troedffordd, llain ymyl ffordd o led a chyflwr rhesymol, llwybr troed neu lwybr ceffylau cyhoeddus i gyd yn darparu llwybr sydd ar gael ar gyfer y rhan honno o'r daith.

- Ar ffordd â llif traffig ysgafn[88], gellir tybio fel arfer bod llain ymyl ffordd y gall dysgwr a rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael. Gelwir hyn yn "fan camu i'r neilltu"[89].

[87] Mae'r ddogfen yn cynnwys dull o asesu llwybrau cerdded i'r ysgol a rhannau perthnasol o Ddeddfau gan Senedd y DU a chyfraith achosion sy'n ymwneud â chludiant i'r ysgol.

[88] Hyd at 400 o gerbydau yr awr

[89] Rhywle lle y gall cerddwyr gamu oddi ar y ffordd ac ar wyneb rhesymol wastad a chadarn fel llain ymyl ffordd yw 'man camu i'r neilltu'

- Tybir y bydd cerddwyr yn croesi'r ffordd neu ffyrdd ymyl i ddefnyddio troedffordd neu lain ymyl ffordd[90]

- Gall llawer o lwybrau sydd ar gael fod ar hyd ffyrdd nad oes ganddynt droedffordd na llain ymyl ffordd. Ar y ffyrdd hyn, rhaid ystyried lled y lôn gerbydau, cyflymder y traffig a'r math o draffig (e.e. cerbydau nwyddau trwm neu hir aml) yn ogystal â gwelededd/linellau gweld y gall troeon sydyn, perthi uchel neu rwystrau eraill effeithio arno/arnynt. Os canfyddir bod diffyg 'mannau camu i'r neilltu' ar lwybr, mae'n debygol y bydd problemau hefyd o ran gwelededd digonol – bydd y nodweddion sy'n effeithio ar argaeledd 'mannau camu i'r neilltu' yn aml yn effeithio ar welededd – perthi, graddiannau ac ati. Fodd bynnag, gall fod eithriadau i hyn.

- Lle y bydd angen croesi ffyrdd, dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi fel llochesau canolog, croesfannau i gerddwyr neu oleuadau traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi'n bodoli, dylai'r asesiad risg o'r llwybr ystyried pob croesfan ffordd, gan gadw cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati mewn cof.

- Y cofnod o'r nifer a gafodd eu hanafu a'u lladd mewn damweiniau ffyrdd ar hyd y llwybr.

- Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r asesiad.

- Dylai cynllun sy'n dangos y llwybr gael ei atodi i bob asesiad

15. Os bydd angen croesi ffyrdd, dylai'r canlynol fod yn bresennol hefyd:

- bylchau digonol yn y llif traffig a llinellau gweld i gynnig digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylid defnyddio'r dadansoddiad o amser bylchau yn ôl y gofyn (paragraff 27) neu
    - Gyfleusterau croesi, e.e. croesfan sebra, pelican, pâl ac ati
    - Golau gwyrdd i gerddwyr wrth oleuadau traffig
    - Patrôl Croesi wrth yr Ysgol
    - Llochesau i gerddwyr

16. Os bydd angen croesi ffordd, dylai'r gwelededd[91] yn y lleoliad alluogi cerbyd i stopio, o ystyried cyflymder 85 canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau yn teithio'n arafach nag ef) llif y traffig. Dylid cymryd mai pellteroedd stopio cerbydau yw'r rhai a roddir yn Rheolau'r Ffordd Fawr[92].

17. Rhagdybir bod holl ddefnyddwyr y ffordd yn dilyn Rheolau'r Ffordd Fawr ac yn gyrru'n unol ag amodau'r ffordd.

18. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen llunio barn yn barhaus. Ni all yr un gyfres o feini prawf gynnig yr holl arweiniad neu atebion i bob sefyllfa y gellir ei hwynebu.

---

[90] Bydd troedffordd neu lain ymyl ffordd yn un â digon o led cerdded defnyddiadwy ar gyfer yr amgylchiadau. Er mwyn bod yn ddefnyddiadwy, dylai fod yn glir o ordyfiant, h.y: llwyni a choed yn rhwystro'r droedffordd. Mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffordd neu ffyrdd ymyl er mwyn cynnal mynediad at y droedffordd

[91] Y pellter dirwystr sydd i'w weld pan gaiff ei fesur o safbwynt gyrrwr, 1.05m o wyneb y ffordd. Y pellter dirwystr y gall cerddwr ei weld o'r man lle mae'n rhaid iddo groesi'r ffordd neu lle y gall weld traffig wrth gerdded ar y ffordd

[92] The Highway Code - Guidance - GOV.UK (www.gov.uk)

19. Os bydd troedffordd ddigonol drwy gydol holl hyd y daith, heb fod angen croesi'r ffordd, yna bydd y llwybr yn “ddiogel”. (Mae'n bosibl y bydd angen barn ar sail gwybodaeth gan y gweithiwr proffesiynol yn dibynnu ar lifoedd traffig a natur y llwybr).

20. Os bydd rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu wella llinellau gweld, yna mae'n bosibl y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel.

21. Efallai na fydd y droedffordd yn ddi-dor ar rai ffyrdd gwledig. Bydd angen llunio barn hyddysg am argaeledd “mannau camu”.

***Diffiniad o Lwybr nad yw'n Beryglus***

22. Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un nad yw'n beryglus (*ar gael*) bydd angen:-

**A**

- Troedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sydd â llif traffig cymedrol i drwm neu
- “Fannau camu i'r neilltu” ar ffyrdd sydd â llif traffig ysgafn ond llinellau gweld digonol (gweler isod) er mwyn rhoi digon o rybudd i yrwyr a cherddwyr.

neu

- Ar ffyrdd â llif traffig ysgafn iawn, dim “mannau camu i'r neilltu”, ond llinellau gweld sy’n ddigon da i roi rhybudd digonol.

Yn ogystal â

**B**

Os bydd angen croesi ffyrdd, bydd yn rhaid cael:-

- Bylchau digonol yn y llif traffig a llinellau gweld i gynnig digon o gyfleoedd i groesi’n ddiogel.

neu

- Gyfleusterau croesi (e.e. croesfannau sebra, pelican)
- Goleuadau gwyrdd i gerddwyr wrth oleuadau traffig (gan gynnwys llochesau angenrheidiol)
- Patrôl Croesi wrth yr Ysgol
- Llochesau i gerddwyr

***Llinellau gweld***

23. Bydd llinell weld yn bwysig wrth groesi'r ffordd neu wrth gerdded ar hyd y ffordd. Er mwyn i lwybr fod yn un nad yw'n beryglus:

- Rhaid i linellau gweld ar gyfer cerddwyr fod yn ddigon iddynt allu gweld cerbydau sy'n dod tuag atynt a chael digon o amser i gymryd camau osgoi yn ddiogel. Byddai angen i gyflymderau cerbydau ar ffyrdd unigol gael eu hystyried

- Rhaid i linellau gweld ar gyfer gyrwyr (wedi'u mesur ar uchder o 1.05m) fod yn ddigon iddynt allu gweld cerddwyr sy'n cerdded ar hyd y lôn gerbydau a chael digon o amser i gymryd camau osgoi yn ddiogel ar ba gyflymder bynnag y byddant yn teithio arno. Fel isafswm sylfaenol, rhaid i hyn fod y pellter stopio byrraf cyffredinol ar gyfer traffig ar y cyflymder 85 canradd a gofnodwyd ar gyfer traffig ar y ffordd honno (y cyflymder y mae 85% o’r cerbydau yn teithio'n arafach nag ef dan amodau arferol pan fydd traffig yn llifo'n rhydd yw cyflymder 85 canradd) – mae'n bosibl y bydd angen cynnal

arolwg cyflymder er mwyn canfod y wybodaeth hon. Gellir defnyddio cyflymderau cymedrig yn lle'r cyflymder 85 canradd

***Asesiadau Croesi Ffyrdd***

24. Gellir asesu pa mor anodd yw croesi mewn man penodol drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd ddarparu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch a byddai angen i fylchau fod yn hwy er mwyn i unigolion allu croesi'r ffordd yn ddiogel.

25. Bydd bwlch derbyniol i groesi o gwrb i gwrb yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Argymhellir defnyddio cyflymder cerdded o 0.91m yr eiliad wrth asesu.

***Amser Bylchau***

26. Dylai'r arolwg gofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy na'r amser a gymerir i groesi'r ffordd, gan ddefnyddio 0.91m yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gellid dosbarthu bylchau hwy fel bylchau lluosog yn hytrach na fel un bwlch yn unig. Mae'r Llawlyfr Arwyddion Traffig (Pennod 6 – Rheoli traffig) yn rhoi rhagor o wybodaeth am asesu bylchau yn llif y traffig ar gyfer croesfannau ffyrdd[93].

***Arolygon Safle a Llifoedd Traffig***

27. Dylid defnyddio arolygon safle er mwyn helpu i benderfynu a dybir bod llwybr 'ar gael'.

28. Fel arfer, dylai arolygon safle gael eu cynnal yn ystod y cyfnod cyn i'r ysgol ddechrau yn y bore, gan mai dyma pryd y bydd llif y traffig ar ei drymaf ar y cyfan, oni ellir dangos bod llif y prynhawn yn drymach. Dylai arolygon pellach gael eu cynnal ar ddiwedd y diwrnod ysgol, ac eto pryd bynnag y bydd y llif traffig trymaf, gan arwain at ISAFSWM o dri arolwg. Dylid cofnodi data mewn cyfnodau olynol o bum munud.

29. Os bydd rhwystr fel pont gul ar hyd y llwybr, bydd yn rhaid arfer barn broffesiynol i asesu'r risg gymharol sy'n gysylltiedig â mynd heibio i'r rhwystr. Mae'n bosibl y bydd y meini prawf bylchau (paragraff 26) yn ddefnyddiol ac o gymorth mewn sefyllfa fel hyn

30. Dylai llif y traffig ar hyd ffyrdd fod yn ffactor wrth benderfynu ar argaeledd llwybr. Gall llif y traffig amrywio o lif ysgafn iawn ar rai ffyrdd gwledig i lif trwm iawn mewn ardaloedd trefol. Bydd hefyd yn amrywio ar ddarnau unigol o ffyrdd yn dibynnu ar yr amser o'r dydd ac, mewn rhai achosion, yr amser o'r flwyddyn a'r diwrnod o'r wythnos.

31. Awgrymir y diffiniadau canlynol o lefelau llif
- Llif traffig ysgafn – hyd at 400 o gerbydau yr awr;
- Llif traffig cymedrol – rhwng 400 ac 840 o gerbydau yr awr;
- Llif traffig trwm – dros 840 o gerbydau yr awr.

32. Argymhellir y dylid cofnodi cyfrifon traffig fel gwerthoedd cyfwerth â "char" (Unedau Ceir Teithwyr - PCU), drwy ddefnyddio'r ffactorau canlynol:

[93] Traffic signs manual - GOV.UK

| | |
|---|---|
| 3 beic pedlo | 1 PCU |
| 2 feic modur | 1 PCU |
| 1 Car | 1 PCU |
| 1 cerbyd nwyddau ysgafn (hyd at 3.5 tunnell o bwysau gros) | 1 PCU |
| 1 Bws/Coets (dros 3.5 tunnell) | 2 PCU |
| Cerbydau Nwyddau (dros 3.5 tunnell) | 2 PCU |
| Cerbydau Nwyddau (dros 7.5 tunnell/lorïau â mwy na 2 echel) | 3 PCU |

33. Cyfrifir cerbydau sy'n teithio'r ddwy ffordd ac eithrio ar systemau unffordd. Caiff ffyrdd deuol eu cyfrif fel ffyrdd unffordd ar y naill ochr a'r llall.

34. Pan fo'r llif traffig ddwyffordd (un ffordd o ffordd ddeuol) yn is na 240 o gerbydau yr awr, asesir bod y ffordd yn ddiogel i'w chroesi. Mae hyn yn gyfwerth ag un cerbyd bob 15 eiliad, sy'n gadael bwlch rhesymol i groesi ffordd 7m o led ar gyflymder cerdded o 0.91m yr eiliad. Pan fo llif y traffig yn uwch na 240 o gerbydau yr awr, mae'n bosibl yr hoffai awdurdod lleol ystyried dadansoddiad cyfrif bylchau

**Hanes o Wrthdrawiadau**

35. Argymhellir y dylai'r cofnod o anafiadau a marwolaethau ar y ffordd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol ar hyd y llwybr gael ei nodi gan roi sylw arbennig i fannau lle ceir perygl penodol o ddamweiniau. Os defnyddir y llwybr ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus hefyd, dylid gwneud nodyn o arosfannau a lefel y defnydd cynyddol gan gerddwyr a allai effeithio ar y lle sydd ar gael ar lwybrau troed. Er enghraifft, gallai aseswyr gynnwys hanes o wrthdrawiadau dros gyfnod o 3 blynedd yn yr ystyriaeth a roddir i'r llwybr cyfan.

36. Os nodir rhywbeth sy'n peri pryder, argymhellir y dylid ystyried mesurau lliniaru addas, er enghraifft cyflwyno twmpathau cyflymder neu gamerâu cyflymder

***Camlesi, Afonydd, Ffosydd ac Argloddiau***

37. Bydd hefyd yn bwysig canfod:

- a fu llifogydd difrifol ar hyd y llwybr
- a yw hyn yn digwydd yn rheolaidd
- pan fydd llifogydd difrifol, a oes dargyfeiriad priodol ar gael?

38. Mae'n bwysig sicrhau bod gan lwybrau rwystrau addas a bod y rhain o'r uchder priodol i gymryd grwpiau oedran y dysgwyr a allai ddefnyddio'r llwybr i ystyriaeth.

39. Gellir cael gwybodaeth am weithdrefnau rheoli llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

40. Ymhlith y nodweddion diogelwch y gellir eu hystyried mae rhwystrau gwell, arwyddion gwell, goleuadau gwell. Fodd bynnag, os na ellir sicrhau bod llwybr ar gael drwy roi mesur diogelwch ar waith, bydd yn rhaid dod o hyd i lwybrau amgen sydd ar gael.

***Goleuadau***

41. Argymhellir y dylid ystyried goleuadau stryd wrth benderfynu a yw llwybr ar gael.

42. Bydd lefel golau naturiol yn amrywio yn ystod y flwyddyn. Efallai y bydd newid tymhorol yn ei gwneud yn ofynnol i'r llwybr gael ei adolygu os bydd amodau y rhoddir gwybod amdanynt yn creu anawsterau i’r dysgwr a /neu’r hebryngwr.

43. Os nodir rhywbeth sy'n peri pryder, dylai awdurdodau lleol ystyried darparu goleuadau digonol. Hefyd, dylai rhieni/gofalwyr ddarparu dillad adlewyrchol addas i ddysgwr.

***Newidiadau Arfaethedig yn yr Ardal***

44. Bydd cynigion (byrdymor a hirdymor) a allai effeithio ar ddiogelwch yn berthnasol hefyd. Mae’n debygol mai gan yr awdurdod lleol a/neu'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol y bydd llawer o'r wybodaeth ac felly bydd y gwiriadau canlynol yn llywio'r broses benderfynu:

- Adrannau priffyrdd ar gyfer gwaith ffordd arfaethedig a fyddai’n effeithio ar amodau traffig yn y tymor byr (e.e. cynlluniau lledaenu’r ffordd)
- Adrannau cynllunio ar gyfer datblygiadau a all effeithio ar draffig yn y tymor hir (e.e. datblygiadau tai neu fanwerthu)
- Adrannau addysg i archwilio unrhyw gynlluniau arfaethedig i ad-drefnu a/neu uno ysgolion

A/neu Gyd-bwyllgorau Corfforaethol

- Cynlluniau Datblygu Strategol
- Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol

45. Lle y caiff newidiadau arfaethedig eu datblygu a all effeithio ar argaeledd llwybrau, argymhellir y dylai arweinydd yr adran berthnasol yn yr awdurdod lleol ymgynghori â thimau teithio gan ddysgwyr, a dysgwyr, er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw drefniadau amgen, yn enwedig o ran effeithiau byrdymor.

***Croesfannau Rheilffordd***

46. Ceir mwy na 6,000 o groesfannau rheilffordd ym Mhrydain gyda 1,167 (neu 18%) ohonynt ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

47. Mae'n amlwg y bydd yr angen i ddefnyddio croesfan reilffordd yn berthnasol wrth ystyried a yw llwybr ar gael.

48. Network Rail sy'n gyfrifol am weithredu croesfannau rheilffordd. Mae'n asesu pob croesfan yn ofalus ac yn rhoi lefel briodol o warchodaeth iddi yn unol â chanllawiau diogelwch a gymeradwywyd gan Arolygiaeth Rheilffyrdd EF. Anogir awdurdodau lleol i gysylltu â Network Rail a all roi cyngor ac arweiniad ar fesurau rheoli risg ar gyfer croesfannau rheilffordd.

49. Mae Network Rail wedi llunio amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol i ysgolion eu defnyddio gyda phlant a phobl ifanc. Anogir ysgolion i wreiddio'r gweithgareddau dysgu hyn yn eu cwricwlwm. Dylai rhieni/gofalwyr atgyfnerthu'r gweithgareddau dysgu hyn gartref.

## Y Weithdrefn Asesu Llwybrau – Diogelwch Cymdeithasol

*Natur Perygl Cymdeithasol*

50. Gellir dehongli 'Perygl Cymdeithasol' mewn gwahanol ffyrdd ac mae'n oddrychol. At ddibenion y ddogfen hon, mae'n cyfeirio at unrhyw risgiau neu fygythiadau a allai niweidio diogelwch, llesiant neu ymdeimlad o ddiogelwch yn ystod taith dysgwr i'r ysgol ac oddi yno. Mae'r dehongliadau mwyaf cyffredin a roddir gan blant a phobl ifanc fel a ganlyn: perygl sy'n gysylltiedig â dieithriaid; perygl(on) sy'n gysylltiedig â phobl yn cyflawni troseddau; ymddygiad gwrthgymdeithasol – bwlio neu aflonyddu gan gyfoedion neu blant hŷn ar y ffordd i'r ysgol; ymddygiad amhriodol gan oedolion – dod i gysylltiad ag oedolion sy'n ymddwyn mewn ffordd amhriodol neu beryglus, megis camddefnyddio sylweddau (alcohol/cyffuriau) neu ymladd; ac amlygiadau ffisegol, fel nodwyddau a daflwyd neu fannau lle mae pobl yn cam-drin/camddefnyddio cyffuriau.

51. Gall plant wynebu peryglon go iawn wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn debyg i oedolion, mae'n bosibl y bydd gan blant hefyd ganfyddiad o beryglon hyd yn oed os na fydd rhai'n bodoli, a bydd hynny hefyd, wrth reswm, yn dylanwadu ar eu hymddygiad ac yn rhywbeth y dylid ei ystyried.

*Asesiad Diogelwch Cymdeithasol*

52. Dylai'r asesiad Diogelwch Cymdeithasol ar gyfer llwybr ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawl i roi eu barn ar yr hyn a ddylai ddigwydd ac i bobl wrando ar y farn honno (mae templed enghreifftiol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr i'w weld yn Atodiad XX). Anogir ysgolion i gymryd rhan yn y broses hon drwy gynnal fforwm i ddysgwyr allu trafod a chyfrannu eu safbwyntiau ar eu teithiau i'r ysgol.

53. Dylai awdurdodau lleol ystyried y camau y gallant eu cymryd i leddfu pryderon a/neu weithio gydag ysgolion i ddeall y canfyddiad o berygl er mwyn rhoi tawelwch meddwl i ddysgwyr lle bo hynny'n briodol.

*Asesu Diogelwch Cymdeithasol – Gweithio mewn partneriaeth*

54. Wrth ystyried a sicrhau argaeledd llwybrau, dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau sy'n arbenigo mewn mynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur, gan gynnwys cyfrifoldeb am wneud hynny. Yr Heddlu sy'n gyfrifol am drosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r Byrddau Diogelu Plant sy'n gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant. Dylai rhieni/gofalwyr roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol hyn am unrhyw bryderon dybryd.

55. Mae adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol a 'phartneriaid perthnasol' er mwyn gwella llesiant plant a phobl ifanc. Y 'partneriaid perthnasol' sy'n ffurfio'r Byrddau Lleol a Rhanbarthol Diogelu Plant. Fel rheol, mae'r cyrff hyn yn cynnwys yr Heddlu; y bwrdd prawf lleol; y tîm troseddau ieuenctid; Ymddiriedolaeth y GIG; y Bwrdd Iechyd Lleol; a'r awdurdodau lleol perthnasol (yn enwedig Uwch-Gyfarwyddwyr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithio rhwng swyddogion yr awdurdod. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol gael eu gwahodd i gyfarfodydd perthnasol.

56. Wrth gynnal asesiadau, dylai awdurdodau lleol ystyried unrhyw ddata perthnasol sydd ar gael gan yr heddlu neu dimau diogelu ar gyfraddau troseddu ar hyd y llwybr; unrhyw adroddiadau neu bryderon gan blant a phobl ifanc ynglŷn â pherygl sy'n gysylltiedig â

dieithriaid, neu unrhyw ardaloedd penodol ar hyd y llwybr lle mae plant a phobl ifanc wedi rhoi gwybod eu bod yn teimlo'n anniogel.

57. Rhaid i aseswyr awdurdodau lleol weithio o fewn y fframwaith cyfreithiol (gan gynnwys rheoliadau GDPR) a rhoi'r strwythurau llywodraethu a phrotocolau rhannu angenrheidiol ar waith gyda sefydliadau partner fel bod modd rhannu gwybodaeth a data mewn modd amserol er mwyn gallu rheoli'r risgiau sy'n wynebu dysgwyr ar eu ffordd i'r ysgol ac oddi yno yn effeithiol.

***Amseriadau asesiadau***

58. Wrth benderfynu pa mor aml y dylid ystyried llwybrau, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a benderfynwyd yn flaenorol fod y llwybr ar gael a/neu a yw'r awdurdod lleol wedi cael unrhyw sylwadau yn dweud y dylid ailasesu'r llwybr.

59. Bydd yn bwysig ystyried a oes unrhyw amodau wedi newid, er enghraifft:

- Dylid ystyried cofnod o ddamweiniau ar gyfer y llwybr dros gyfnod o dair blynedd o leiaf, ond ni fydd bodolaeth cofnod o ddamweiniau o reidrwydd yn arwydd bod y llwybr yn anniogel ar gyfer y daith i'r ysgol – bydd hyn yn dibynnu ar y math o ddamweiniau, eu natur a'u perthnasedd.
    - A fu damwain neu ddigwyddiad tebyg
    - A oes ystadegau damweiniau uchel ar lwybr
- A oes ysgolion wedi cael eu hagor neu eu cau ar hyd y llwybr
- Newidiadau a wnaed i lwybr – gwaith ffordd, newidiadau i seilwaith
- Newidiadau i gyfansoddiad a lefelau traffig, gan gynnwys beicwyr
- Newidiadau sy'n effeithio ar y llwybr – adeiladau/datblygiadau tai newydd, prosiectau adeiladu ar raddfa fawr
- Gwybodaeth a gafodd ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol gan yr ysgol, fforymau pobl ifanc, yr heddlu, Bwrdd Lleol a Rhanbarthol Diogelu Plant neu gorff perthnasol arall.

***Helpu i Sicrhau Diogelwch Plant***

60. Rhoddir matrics Asesiad Risg enghreifftiol yn Atodiad A. Argymhellir y dylai'r matrics hwn gael ei ddefnyddio fel sail i awdurdod lleol ddatblygu ffurflen asesu sydd wedi'i theilwra ar gyfer yr ardal leol. Dylai awdurdodau lleol asesu a mapio llwybrau mewn ffordd ddiogel; dylai'r dogfennau hyn fod ar gael i rieni/gofalwyr, dysgwyr, ysgolion a'r gymuned ehangach os byddant yn gofyn amdanynt.

61. Gall rhieni/gofalwyr yn ogystal â'r dysgwr ofyn am gael bwrw golwg dros yr asesiad risg gyda'r asesydd er mwyn deall y casgliadau'n llawn.

62. Os bydd anghydfod rhwng awdurdodau lleol a rhieni, argymhellir y dylid defnyddio dulliau datrys anghydfod presennol yr awdurdodau lleol.

- Cam 1: Caiff cwynion eu hatgyfeirio at yr adran berthnasol yn yr awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am gomisiynu'r asesiad risg

- Cam 2: Os na chânt eu datrys, caiff anghydfodau eu hatgyfeirio at Swyddog Monitro'r awdurdod lleol[94]

- Cam 3: Os byddant yn dal heb eu datrys, dylai achwynwyr fynd â'u hachos at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[95].

63. Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn cynnig strwythur i rieni a dysgwyr allu trafod cludiant i'r ysgol; gallai hyn gynnwys ysgolion yn gweithredu fel pwynt cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, rhieni a dysgwyr, gan gynnig cyfleoedd drwy fforymau ysgol perthnasol (cynghorau rhieni/eco-bwyllgorau) i rieni/gofalwyr yn ogystal â dysgwyr roi mewnbwn ar deithio/ awgrymiadau ar gyfer cludiant/ problemau/ pryderon gan gynnwys asesiadau o lwybrau diogel.

64. Drwy ystyried llwybrau bydd awdurdodau lleol yn gallu penderfynu a yw llwybr i ysgol ‘ar gael’ i gerdded ar ei hyd. At hynny, mewn achosion lle y tybir nad yw llwybr ‘ar gael’, gall y broses hon nodi pa fesurau diogelwch y gellid eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y llwybr ‘ar gael’ neu y gall fod ‘ar gael’ i gerdded ar ei hyd.

65. Ni fydd asesiad llwybr yn gorfodi'r awdurdod lleol i ddarparu cludiant ar gyfer dysgwyr. Gall awdurdodau lleol, ysgolion a'u cymunedau ehangach weithio mewn partneriaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, fod gan ddysgwyr fynediad at lwybrau diogel sy'n ddigon poblog ac wedi'u goleuo'n dda i'r ysgol ac oddi yno, yn ogystal â sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i geisio cymorth os bydd angen. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi amrywiaeth o gyllid i awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau a allai helpu i wella diogelwch llwybrau cerdded i ysgolion.

***Rolau a Chyfrifoldebau***

66. Mae cyfrifoldeb ar bob partner cyflawni yn ogystal â rhieni/gofalwyr a dysgwyr i helpu i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddiogelwch plant a phobl ifanc ar y llwybr a gerddir rhwng y cartref a'r ysgol

**Awdurdodau lleol – ceir nifer o ymyriadau y gallai awdurdodau lleol eu hystyried er mwyn hwyluso llwybr cerdded diogel gan gynnwys:**

- Rhoi mesurau gostegu traffig ar waith
- Mynd i'r afael â pharcio ar y palmant
- clirio llystyfiant
- rhoi wyneb newydd ar y llwybr troed sydd ar gael neu ei ledaenu
- darparu llwybr troed newydd
- darparu goleuadau
- darparu cyfleusterau croesi perthnasol
- gosod rhwystrau
- hyrwyddo'r Rhaglen Teithiau Iach mewn ysgolion
- Gwneud darpariaeth ehangach o hyfforddiant teithio – mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i’r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol y gellir eu haddysgu sut i gerdded yn annibynnol rhwng y cartref a’r ysgol. Profwyd bod hyfforddiant o’r fath

[94] Cymorth gyda chludiant i'r ysgol – manylion cyswllt awdurdodau lleol
[95] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

o fudd i’r rhai sy’n ei dderbyn (sy’n meithrin mwy o ymdeimlad o annibyniaeth a hyder) ac yn gosteffeithiol i awdurdodau lleol

### Ysgolion/y Gymuned

- Cymryd rhan yn y Rhaglen Teithiau Iach a all gynnig mynediad a chymorth i wneud y canlynol
  - Datblygu Cynllun Teithio i'r Ysgol
  - Mynd i'r afael â phroblemau teithio penodol o amgylch yr ysgol
  - Datblygu hyfforddiant a chymhellion i gymuned yr ysgol sy'n hyrwyddo beicio, cerdded a sgwtera
  - Hyfforddiant i blant a phobl ifanc er mwyn rhoi'r hyder iddynt fod yn gerddwyr ac yn feicwyr mwy diogel drwy fynd â nhw ar ffyrdd a dangos iddynt sut y gall gwneud y penderfyniadau cywir ac ymddwyn yn gywir eu helpu i gadw’n ddiogel
  - Ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cynghorwyr a sefydliadau eraill er mwyn iddynt allu cydweithio â'i gilydd i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i wella teithio llesol yn y gymuned leol
  - Adnoddau cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar deithio llesol
  - Ennill Gwobrau Ysgolion Iach[96] ac Eco-Sgolion[97]

- Annog plant i gerdded gyda rhieni/gofalwyr, ffrindiau neu grwpiau er mwyn gwella diogelwch
- Annog rhieni i hebrwng eu plant i’r ysgol
- Helpu i gynnwys y gymuned – annog rhieni i rannu cludiant i’r ysgol – gallai arfer o’r fath gael ei chydgysylltu gan Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon neu grwpiau cymunedol
- Addysgu plant a phobl ifanc sut i adnabod peryglon phosibl ac ymateb iddynt, gan gynnwys beth i'w wneud neu wrth bwy i ddweud os bydd dieithryn yn siarad â nhw neu os byddant yn teimlo'n anniogel.
- Annog Swyddogion Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, i gerdded ar hyd y llwybrau er mwyn sicrhau, i'r graddau y bo'n ymarferol, eu bod yn ddiogel
- Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad Teithio a sut i'w roi ar waith drwy eu polisïau, eu gwersi a'u gwasanaethau eu hunain.

### Rhieni/gofalwyr

- Cerdded, sgwtera a beicio gyda dysgwyr ar eu taith i'r ysgol
- Rhannu'r daith i'r ysgol â theuluoedd eraill
- Trafod pwysigrwydd diogelwch ar y daith i'r ysgol gyda'u plant
- Trafod gyda'u plant pwy y dylent siarad â nhw ar eu taith i'r ysgol, neu ar ôl cyrraedd yr ysgol, os na fyddant yn teimlo'n ddiogel
- Darparu dillad addas er mwyn hybu diogelwch ar y daith i'r ysgol

67. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni er mwyn cefnogi'r uchelgeisiau hyn ac mae'n annog partneriaethau a chydweithio parhaus rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a grwpiau cymunedol er

[96] Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru
[97] Eco-Sgolion – Cadwch Gymru'n Daclus – Eco-Sgolion

mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio yn y ffordd orau i ddatblygu, creu, cynnal a chadw a gwella llwybrau i'r ysgol sydd ‘ar gael’.

## Rhan 2 – Atodiad 1a – Rhestr wirio ar gyfer Asesu a yw Llwybr ar Gael

| **Cyn cynnal asesiad, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
|---|
| • Pryd aseswyd y llwybr ddiwethaf? A benderfynwyd bod y llwybr ar gael yn flaenorol? Os felly, pryd y gwnaed y penderfyniad hwnnw ac a oes unrhyw beth wedi newid? |
| • A yw'r llwybr yn ddiogel? Os nad ydyw, i ba gategori mae'r risgiau/peryglon a nodwyd yn perthyn? A yw'r risgiau/peryglon yn rhai ffisegol, topograffig, daearyddol, amgylcheddol neu gymdeithasol? |
| • A ymgynghorwyd â dysgwyr yn ystod yr asesiad risg diwethaf? Os felly, beth oedd eu barn? |
| • Pa amser fyddai'n ddelfrydol i ystyried a yw'r llwybr dan sylw ar gael? (Noder: Fel rheol, yr amser gorau fyddai pan fo dysgwyr yn defnyddio'r llwybr – hynny yw, yn y bore ar y ffordd i'r ysgol ac yn y prynhawn pan fydd dysgwyr yn mynd adref) |
| • Yn achos peryglon cymdeithasol, pwy yw'r sefydliadau/asiantaethau partner perthnasol? |
| **Yn ystod y broses asesu risg, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
| • A fyddai'r dysgwyr/rhieni/unigolion â chyfrifoldeb rhiant yn debygol o fynd gyda chynrychiolydd yr awdurdod lleol sy'n ystyried a yw'r llwybr ar gael? (Noder: Mae hyn yn aml yn galluogi'r dysgwyr/rhieni/pobl eraill i ddangos pam yn union maent yn credu nad yw llwybr yn ddiogel). |
| • Cadarnhad bod dysgwyr wedi cael gwybod am yr asesiad ac wedi cael cyfle i fwydo i mewn i'r asesiad. |
| • Pa ddulliau y dylid eu defnyddio i ymgynghori â dysgwyr – er enghraifft Cynghorau Ysgol ac ati? |
| • Mewn perthynas â pheryglon cymdeithasol, pa fath o dystiolaeth a gaiff ei darparu gan y sefydliadau partner perthnasol (yr Heddlu neu Fyrddau Lleol Diogelu Plant)? A yw'r dystiolaeth yn ansoddol neu'n feintiol? |
| • Pryd bydd y dystiolaeth (ansoddol neu feintiol) ar gael? |
| • Os yw'n gweithio gyda sefydliadau partner, a roddwyd protocolau rhannu gwybodaeth ar waith? A ymgynghorwyd â chyfreithwyr llywodraeth leol? |
| **Ar ol asesiad risg, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
| • A yw'r Asesydd Risg yr awrdurdod lleol fodlon bod y llwybr ar gael? |
| • Os nad yw, a oes unrhyw gamau byrdymor i'w cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau bod y llwybr ar gael? A oes unrhyw ymyriadau mwy tymor hwy y bydd angen cyllid/gwaith cynllunio ar eu cyfer (e.e. ar gyfer goleuadau traffig, seilwaith camu i'r neilltu) a allai sicrhau bod y llwybr ar gael? A oes unrhyw beth y gallai'r ysgol ei wneud i helpu i wneud y llwybr yn ddiogel? |
| • A yw'r dysgwr yn fodlon? A yw'r rhiant/unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn fodlon? Os nad ydyw, pam? |
| • A yw'r gweithdrefnau cwyno cywir ar waith? |
| • A oes gwybodaeth am y broses o benderfynu a yw'r llwybr ar gael wedi'i chasglu ynghyd fel y gellir ei rhannu â'r dysgwr/rhiant/gofalwr? |

## Rhan 2 – Atodiad 1b – Matrics asesu a yw Llwybr ar Gael

| Manylion y Dysgwr (enw, oedran, enw'r ysgol) | Manylion cydymaith (new, perthynas i'r dysgwr) | Manylion cynrychiolydd awrdurdod lleol (enw, teitl swydd) |
|---|---|---|
| | | |

| Llwybr – A i B | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Difrifoldeb y risg* | Lefel y risg** | Mesurau Rheoli | Risg wedi ei liniaru*** |
| Pryderon y Dysgwr<br>- Materion personol<br>- Materion lleol<br>- Mannau problemus<br>- Materion trafnidiaeth arall | | | | |
| Lefelau traffig | | | | |
| Manylion llwybrau troed | | | | |
| Troetffyrdd | | | | |
| Mannau croesi | | | | |
| - Afonydd<br>- Camlesi<br>- Ffisydd<br>- Argloddiau<br>- Llystyfiant | | | | |
| Golau | | | | |
| Effeithiau Cynllunio | | | | |
| Peryglon cymdeithasol | | | | |
| Eraill | | | | |

*graddfa o isel 1 iawn ➔ 5 uchel iawn

**Tebgolrwydd (graddfa o 1➔ 5) wedi ei luosi yn ôl difrifoldeb

***Tebgolrwydd (graddfa o 1➔ 5) ar ôl rhoi'r mesur rheoli ar waith wedi ei luosi yn ôl difrifoldeb

## Rhan 2 – Atodiad 2 – Templed ar gyfer Asesiad Ymgysylltu â Dysgwr

<table>
<tr>
<td>Manylion y dysgwr<br>• Enw<br>• Oedran<br>• Enw'r ysgol</td>
<td>Manylion y rhiant/gofalwr<br>• Enw<br>• Y berthynas rhyngddo a'r Dysgwr</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Llwybr i'r ysgol<br><br>A allwch chi ddweud wrthym pa ffordd rydych chi'n cerdded i'r ysgol, gan gynnwys enwau strydoedd?<br><br>Faint o amser y mae'n ei gymryd i gerdded i'r ysgol?<br><br>Ydych chi wedi gofyn i ni edrych i weld pa mor ddiogel yw eich taith i'r ysgol o'r blaen? Os felly, pryd?<br><br>Beth yw eich prif bryderon ynglŷn â'ch taith i'r ysgol? (e.e. lefelau traffig, mannau croesi, goleuadau, problemau cymdeithasol – e.e: ymddygiad gwrthgymdeithasol, anifeiliaid)<br><br>Pryd hoffech chi i'r asesiad risg gael ei gynnal? (e.e. bore/prynhawn; diwrnod/mis penodol)<br><br>Unrhyw sylwadau eraill?<br><br>Diolch am roi gwybodaeth i ni am eich taith i'r ysgol.  Os hoffech wybod beth fydd yn digwydd nesaf, rhowch eich cyfeiriad e-bost/gohebu (gallwch roi cyfeiriad eich cartref neu'ch ysgol).  Drwy roi'r manylion hyn, byddwch yn cadarnhau bod eich rhiant/gofalwr yn fodlon i chi rannu'r wybodaeth hon.</td>
</tr>
</table>

# Rhan 3

## Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

***Cyhoeddi Polisïau Teithio gan Ddysgwyr a Gwybodaeth i Rieni***

1. Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi a darparu gwybodaeth am drefniadau teithio a wneir o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur"). Maent yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chyhoeddi a phryd a sut y dylid cyhoeddi'r wybodaeth a'i darparu i rieni, dysgwyr, cyrff llywodraethu, penaethiaid a/neu bersonau eraill.

2. Nid yw trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol (e.e. teithio i ddilyn cyrsiau mewn mannau dysgu eraill) o fewn cwmpas y Rheoliadau ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r darpariaethau hyn.

3. O dan Reoliadau 2009, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol[98]:-
   - y trefniadau a'r polisïau cyffredinol mewn perthynas â chludiant i ddysgwyr, gan gynnwys yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:
     - o darparu cludiant am ddim
     - o unrhyw drefniadau teithio a wneir ar gyfer dysgwyr nad yw cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar eu cyfer
     - o talu treuliau teithio rhesymol
     - o dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol/anableddau
   - gwybodaeth am sut i wneud ymholiadau/cwynion ynghylch trefniadau teithio,
   - gwybodaeth am weithdrefn apelio'r awdurdod lleol
   - unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol, ym marn yr awdurdod lleol, i ddysgwyr yn ei ardal ynglŷn â threfniadau teithio a wneir gan sefydliadau eraill ar gyfer pob dysgwr hyd at 19 oed yn yr ardal (dylai awdurdodau lleol gynnwys polisïau ar gyfer dysgwyr oedran meithrin, dysgwyr o oedran ysgol gorfodol a dysgwyr ôl-16)
   - y Cod Ymddygiad Teithio a luniwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o'r Mesur.

4. Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi erbyn 1 Hydref cyn y flwyddyn academaidd y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi[99]. Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi[100]:-
   - ar wefan yr awdurdod lleol
   - drwy ddosbarthu copïau i rieni/gofalwyr am ddim ar gais a threfnu eu bod ar gael er mwyn i rieni/gofalwyr a phersonau eraill edrych arnynt yn:
     - o swyddfeydd yr awdurdod lleol
     - o pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol
   - drwy drefnu bod copïau ar gael er mwyn i bobl edrych arnynt mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

[98] Atodlen 1 o Reoliadau 2009.
[99] Rheoliad 4(2) o Reoliadau 2009.
[100] Rheoliad 4(3) o Reoliadau 2009.

- drwy ddosbarthu copïau mewn unrhyw fan perthnasol arall y gall dysgwyr yn yr ardal ystyried mynd iddo
- drwy ddosbarthu copïau i rieni disgyblion sydd ym mlwyddyn olaf yr ysgol ac a allai drosglwyddo i ysgol arall a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw. (Dim ond y wybodaeth sy'n berthnasol i'r ysgol y gallai'r disgybl drosglwyddo iddi y mae angen i'r awdurdod lleol ei rhoi)

5. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd ddarparu'r wybodaeth ganlynol am ddim[101] os bydd corff llywodraethu, pennaeth, rhiant neu unrhyw ddysgwr arall yn ardal yr awdurdod lleol yn gofyn amdani:-

- gwybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiad o anghenion teithio dysgwyr a gynhaliwyd o dan adran 2 o'r Mesur
- gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch addasrwydd trefniadau cludo neu deithio lle mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau
- gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch a yw llwybr 'ar gael'
- gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch a oes angen trefniadau teithio er mwyn hwyluso presenoldeb y plentyn bob dydd yn y man perthnasol lle mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant at ddibenion adran 4(1) o'r Mesur)
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau i wneud trefniadau teithio gan ddefnyddio ei bwerau disgresiwn (adran 6 o'r Mesur).

6. Dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am drefniadau cludo ochr yn ochr â'r wybodaeth a ddarperir am dderbyniadau ysgol neu fel rhan o'r wybodaeth honno. Dylai awdurdodau lleol hefyd ddarparu copïau o'r Cod Ymddygiad Teithio.

[101] Rheoliad 5 o Reoliadau 2009.

## Rhan 3 – Atodiad 1: Templed ar gyfer Polisi Cludiant i Ddysgwyr

Dylai Polisïau Cludiant i Ddysgwyr gael eu geirio'n gyson, yn eglur ac yn gywir. Dylent fod yn hawdd eu deall ac yn hygyrch.

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Esbonio'r hyn y gall y dysgwr ei ddisgwyl o'r ddogfen, at ba flwyddyn academaidd y mae'n cyfeirio a phryd y cafodd/y caiff ei hadolygu/ei diweddaru<br><br>Cyd-destun polisi a chyd-destun deddfwriaethol<br>- Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008<br>- Dyletswyddau Iaith Gymraeg<br>- Dyletswyddau teithio cynaliadwy (gan gynnwys yr hierarchiaeth drafnidiaeth) |
| Darparu cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol | Y meini prawf cymhwysedd ar gyfer darparu cludiant am ddim i'r ysgol, gan gynnwys trothwyon milltiroedd y bydd yr awdurdod lleol yn eu defnyddio<br>- diffiniad o'r ysgol addas agosaf<br>- manylion am y ffordd y caiff llwybrau eu mesur<br>- manylion am y ffordd y caiff diogelwch llwybrau ei asesu<br>- diffiniad o 'y cartref'<br>- darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY<br>- darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg | Datganiad sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn hybu mynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg |
| Darpariaeth ar gyfer ysgolion ffydd | Amlinellu pa ddarpariaeth, os o gwbl, a gynigir ar gyfer ysgolion ffydd.<br>Gwybodaeth am yr opsiynau teithio sydd ar gael i rieni os na chynigir darpariaeth gan yr awdurdod lleol |
| Darpariaeth ar gyfer ysgolion meithrin | Amlinellu pa ddarpariaeth, os o gwbl, a gynigir ar gyfer plant ysgolion meithrin.<br>Gwybodaeth am yr opsiynau teithio sydd ar gael i rieni os na chynigir darpariaeth gan yr awdurdod lleol |
| Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 | Amlinellu pa ddarpariaeth a gynigir ar gyfer dysgwyr ôl-16.<br>Gwybodaeth am yr opsiynau teithio sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16 os na chynigir darpariaeth gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys darpariaeth a gynigir gan golegau, ysgolion a chynllun iau Fy Ngherdyn Teithio a LCA Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| Darpariaeth yn ôl disgresiwn | Manylion am yr holl bolisïau yn ôl disgresiwn sydd y tu allan i ddyletswyddau adrannau 3 a 4 o'r Mesur.<br>Datganiad polisi clir yn dweud mai polisïau yn ôl disgresiwn yw'r rhain ac na ellir eu diddymu.<br>Manylion am y broses (sut y caiff pobl eu hysbysu, amserlenni ac ati ar gyfer unrhyw ddiddymu posibl) |
| Manylion cais | - Manylion am sut i wneud cais am gludiant<br>- Gwybodaeth am sut a phryd y caiff penderfyniadau ynghylch darpariaeth cludiant i'r ysgol eu rhannu |
| Datganiadau Polisi | Datganiadau polisi ar y canlynol<br>- Dewisiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr<br>- Newid cyfeiriad/symud tŷ<br>- Ysgolion â mwy nag un safle<br>- Gwaharddiadau parhaol a symudiadau wedi'u rheoli<br>- Gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol<br>- Teithiau ysgol<br>- Hebryngwyr Teithio<br>- Peidio â defnyddio'r ddarpariaeth cludiant<br>- Preswyliad deuol<br>- Cyflyrau meddygol dros dro<br>- Ad-drefnu ysgolion<br>- Cardiau teithio rhatach<br>- Taliadau cludiant/Cyllidebau Teithio Personol<br>- Hawl i dynnu cludiant yn ôl |
| Ymddygiad ar Gludiant | - Cod Ymddygiad Teithio |
| Dulliau teithio cynaliadwy | - Gwybodaeth am lwybrau teithio llesol<br>- Gwybodaeth am fentrau i gefnogi teithio llesol ar gyfer ysgolion/rhieni/dysgwyr |
| Manylion am sut i wneud ymholiadau/cwynion ynglŷn â threfniadau teithio | Manylion cyswllt adrannau ar gyfer gwneud ymholiadau a chwynion ac amserlenni ar gyfer ymateb gan awdurdodau lleol |
| Y weithdrefn apelio | Gwybodaeth am weithdrefn apelio awdurdodau lleol a'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol |
| | |

# Rhan 4

## Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr

### *Trosolwg*

1. Gwnaeth Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (“Mesur 2011”) ddiwygio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (‘Mesur 2008’). Diben y diwygiadau hynny oedd gwneud darpariaeth mewn perthynas â diogelwch ar gludiant a ddarperir neu a sicrheir gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir at ddibenion sicrhau presenoldeb mewn ysgolion neu fannau dysgu.

2. Cyflwynodd Mesur 2011 nifer o ddarpariaethau ynglŷn â manyleb cerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.[102]

3. Cyflwynodd Mesur 2011, yn adran 7, droseddau a chosbau i'w defnyddio os na chydymffurfir â gofynion a osodir o dan Fesur 2008[103].

4. Mae adran 1 o Fesur 2011 yn diwygio Mesur 2008 fel bod yn rhaid i bob bws a ddefnyddir ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr i'r ysgol ac oddi yno, a sicrhawyd gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, fod â gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar bob sedd teithiwr.

## Darparu Gwregysau Diogelwch

5. Mae Mesur 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol[104] sicrhau bod gwregys diogelwch wedi'i osod ar bob sedd teithiwr ym mhob cerbyd a ddefnyddir ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr.

6. Dim ond cerbydau a gaffaelir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn benodol ar gyfer cludo dysgwyr a fydd yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn.

7. Nid yw’r ddarpariaeth hon yn cwmpasu bysiau gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir gan ddysgwyr â thocynnau bysiau a brynwyd gan yr awdurdod lleol, hyd yn oed os yw’r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan ddysgwyr sy’n teithio i’r ysgol neu’r coleg ac oddi yno. Y rheswm am hyn yw nad yw’r bws yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo dysgwyr yn unig a gall aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio’r gwasanaeth hefyd.

8. Mae'n rhaid gosod gwregysau diogelwch ar seddi teithwyr mewn bysiau deulawr a ddefnyddir ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr yn yr un modd â cherbydau unllawr.

### *Gwisgo Gwregysau Diogelwch*

9. Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (fel y'i diwygiwyd) (“Deddf 1988”) sy'n llywodraethu gwisgo gwregysau diogelwch.

---

[102] Cafodd Mesur 2008 ei ddiwygio gan adran 2 o Fesur 2011 i gynnwys adran 14B
[103] Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y defnydd o gosbau troseddol a sifil
[104] Y diffiniad statudol o ‘gorff perthnasol’ yw pob un o'r canlynol: ‘awdurdod lleol’ a/neu ‘gorff llywodraethu

ysgol a gynhelir' fel y nodir yn adran 14N o Fesur 2008.

## Bysiau mini[105], bysiau a choetsys

10. Ar fysiau mini, bysiau a choetsys, rhaid i deithwyr 14 oed a throsodd ddefnyddio gwregys diogelwch os oes un ar gael, a bydd ganddynt gyfrifoldeb personol i wneud hynny. I'r rhai 14 oed a throsodd, gallent gael dirwy o £100 yn y fan a'r lle am beidio â gwisgo gwregys diogelwch. Os cânt eu herlyn, y ddirwy uchaf yw £500.

11. Yn achos teithwyr o dan 14 oed, gyrrwr y cerbyd sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y teithwyr hynny'n gwisgo gwregysau diogelwch[106]. Fodd bynnag, nid yw gyrwyr y mathau canlynol o gerbydau'n rhwym wrth y gofyniad hwn:
    - Bysiau mawr – ag wyth sedd yn ychwanegol at sedd y gyrrwr
    - Bysiau bach – â llai nag wyth sedd yn ychwanegol at sedd y gyrrwr a lle nad oes gwregysau diogelwch ar gael
    - Bysiau bach – â llai nag wyth sedd yn ychwanegol at sedd y gyrrwr a lle y caiff y cerbyd ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth lleol o fewn ystyr Deddf Trafnidiaeth 1985 (hynny yw cerbyd gwasanaeth cyhoeddus sy'n cludo teithwyr ar y ffordd am brisiau siwrnai ar wahân) neu lle mae'r cerbyd wedi'i ddylunio neu ei addasu ar gyfer teithwyr sy'n sefyll.

Nid yw hyn yn golygu nad oes gan yrrwr y cerbydau uchod unrhyw gyfrifoldeb – gweler paragraff 13 isod.

12. Nid yw'n ofynnol i weithredwyr ddarparu seddi i blant am nad yw'n ymarferol iddynt gludo amrywiaeth o wahanol seddi i blant ar eu cerbydau. Fodd bynnag, gallant ganiatáu i rieni neu eraill gyflenwi eu seddi car i blant eu hunain i'w defnyddio ar daith ar fws mini. Os bydd rhieni/gofalwyr yn cyflenwi eu seddi car eu hunain, eu cyfrifoldeb nhw fydd sicrhau y caiff y sedd ei gosod yn briodol ac yn ddiogel.

13. Mae adran 15B o Ddeddf 1988 yn nodi, os bydd gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar fws, ei bod yn rhaid i weithredwr bysiau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff yr holl deithwyr wybod ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt wisgo gwregys diogelwch sydd wedi'i osod. Gellir rhoi gwybod i deithwyr ei bod yn rhaid iddynt wisgo gwregysau diogelwch drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:
    - Cyhoeddiad swyddogol gan yrrwr y bws, cynorthwyydd/cynorthwywyr teithwyr neu ddisgybl (pan fydd y disgyblion yn mynd ar y bwrs neu o fewn cyfnod rhesymol wedi hynny);
    - Cyflwyniad clyweledol (pan fydd y disgyblion yn mynd ar y bws neu o fewn cyfnod rhesymol wedi hynny);
    - Arwydd darluniadol neu destun a arddangosir mewn lle amlwg ar bob sedd teithiwr y mae gwregys diogelwch wedi'i osod arni.

14. Gall gweithredwyr bysiau sy'n methu â darparu'r hysbysiad gofynnol am argaeledd gwregysau diogelwch neu'n methu â chydymffurfio â'r gofynion angenrheidiol (megis peidio â hysbysu teithwyr yn glir bod yn rhaid gwisgo gwregysau, neu beidio â chadw cofnod o argaeledd gwregysau diogelwch), wynebu canlyniadau cyfreithiol..

[105] Mae bws mini yn gerbyd modur gyda rhwng 9 ac 16 sedd i deithwyr (nid yw sedd y gyrrwr yn cyfrif at y dibenion hyn). Fe'i disgrifir fel cerbyd categori D1 gan yr Awdurdod Trwyddedu Cerbydau Gyrru
[106] Adran 15(3) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988

15. Nid yw gwregysau diogelwch yn ofynnol ar fysiau ar wasanaethau bysiau lleol cofrestredig sy'n cludo dysgwyr. Rhaid i wregysau diogelwch tri phwynt neu wregys glin ôl-dynadwy fod wedi'u gosod ar bob sedd sy'n wynebu'r blaen a'r cefn ar fathau eraill o fysiau a wnaed ar ôl 1 Hydref 2001.

16. Mae'n bosibl y bydd teithwyr sydd â chyflyrau meddygol wedi'u heithrio rhag gwisgo gwregys diogelwch, ond rhaid iddynt fynd â'u tystysgrifau eithrio gyda nhw wrth deithio yn unol â Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) 1993/176.

### Y gyfraith mewn perthynas â gwregysau diogelwch a seddi diogel i blant ar gyfer ceir, tacsis, cerbydau hurio preifat, faniau a cherbydau nwyddau eraill

17. Mae adran 15 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn sy'n teithio yn sedd flaen neu sedd gefn unrhyw gar, fan neu gerbyd nwyddau ddefnyddio'r sedd car gywir i blant[107] nes eu bod naill ai'n 135cm o daldra neu'n 12 oed (pa un bynnag sydd gynharaf). Ar ôl hynny, rhaid iddynt ddefnyddio gwregys oedolyn. Ychydig iawn o eithriadau sydd. Isod ceir crynodeb o'r gofynion ar gyfer ceir, tacsis, cerbydau hurio preifat, faniau a cherbydau nwyddau eraill[108]

| Person | Sedd flaen | Sedd gefn | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|---|
| Y gyrrwr | Gwregys diogelwch Rhaid ei wisgo os oes un wedi'i osod | | Y gyrrwr |
| Plentyn hyd at 3 oed | Rhaid defnyddio'r sedd ddiogel i blant gywir | Rhaid defnyddio'r sedd ddiogel i blant gywir. Os nad oes un ar gael mewn tacsi neu gerbyd hurio preifat trwyddedig, gall y plentyn deithio heb sedd ddiogel i blant. | Y gyrrwr |

[107] Types of Seat | Child Car Seats
[108] Gwybodaeth o www.childcarseats.org.uk

| Person | Sedd flaen | Sedd gefn | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|---|
| Plentyn o'i ben-blwydd yn 3 oed hyd at 135cm o daldra (tua 4'5") neu ei ben-blwydd yn 12 oed, pa un bynnag sydd gynharaf | Rhaid defnyddio'r sedd ddiogel i blant gywir | Os oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod, rhaid defnyddio'r sedd ddiogel i blant gywir.<br>Rhaid i'r plentyn ddefnyddio gwregys oedolyn yn y sedd gefn os nad yw'r sedd ddiogel i blant gywir ar gael:<br>• Mewn tacsi neu gerbyd hurio preifat trwyddedig<br>• Am bellter byr mewn achos o reidrwydd annisgwyl<br>• Os bydd y ffaith bod dwy sedd ddiogel i blant yn cael eu defnyddio yn golygu na ellir gosod trydedd.<br>Gall plentyn 3 oed a throsodd deithio heb wregys yn sedd gefn cerbyd os nad oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod yn y cefn. | Y gyrrwr |
| Plentyn 12 neu 13 oed, neu dros 135cm (tua 4' 5") o daldra | Rhaid gwisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod | Rhaid gwisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod | Y gyrrwr |
| Teithwyr 14 oed a throsodd | Rhaid gwisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod | Rhaid gwisgo gwregys diogelwch os oes un wedi'i osod | Y teithiwr |

## Cosbau Troseddol

18. Mae adran 14A o Fesur 2008 yn gosod dyletswydd ar gyrff perthnasol (awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) a phersonau sy'n darparu cludiant penodedig i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol (e.e. gweithredwr bysiau a choetsys sy'n darparu gwasanaethau penodedig dan gontract), i sicrhau bod gwregys diogelwch wedi'i osod ar bob sedd teithiwr ym mhob bws a choets a ddefnyddir ar gyfer cludiant i ddysgwyr. Mae is-adran 14A(3) yn darparu bod person sy'n methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hynny yn cyflawni trosedd ac y gellir ei gosbi ar gollfarn ddiannod drwy ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

19. Mae adran 14H o Fesur 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benodi corff gorfodi os byddant yn dymuno gwneud hynny. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi sefydlu corff gorfodi penodol ac maent wedi penderfynu mai'r heddlu fyddai'r corff mwyaf addas i gyflawni rôl awdurdod gorfodi ar gyfer sicrhau y gorfodir y ddarpariaeth ym Mesur 2008 sy'n ymwneud â gosod gwregysau diogelwch ar seddi.

20. Mae gan yr heddlu y pŵer i gynnal hapwiriadau, a gynhelir wrth ymyl y ffordd yn ystod y daith i'r ysgol neu oddi yno neu ar safle'r ysgol cyn neu ar ôl taith er mwyn

cadarnhau bod gwregysau diogelwch wedi'u gosod ar bob sedd teithiwr ar gludiant penodedig i ddysgwyr.

21. Pan fyddant ar gael, bydd archwilwyr cerbydau o'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA)[109] yn cynorthwyo'r heddlu pryd bynnag a ble bynnag y byddant yn cynnal archwiliadau o gludiant ysgol neu ymgyrchoedd yng Nghymru

***Atebolrwydd y rhai sy'n darparu neu'n sicrhau cludiant i ddysgwyr – pwy a fydd yn cael ei erlyn?***

22. Pan geir erlyniad am drosedd o dan ddarpariaethau Mesur 2008, ystyrid mai'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn gyffredinol fyddai'n gyfrifol ac ni fyddai unrhyw atebolrwydd unigol. Fodd bynnag, mae adran 14L o Fesur 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau lle y gall swyddogion corff corfforaethol neu bartneriaeth fod yn bersonol atebol am droseddau a gyflawnir o dan adrannau 14A neu 14B gan y corff corfforaethol neu'r bartneriaeth, yn ogystal â'r corff corfforaethol neu'r bartneriaeth ei hun.

## Hebryngwyr Teithio

23. Gallai awdurdod lleol ddarparu Hebryngwr Teithio fel rhan o'i gymorth ar gyfer teithio i'r ysgol. Gall Hebryngwyr Teithio gyflawni rôl allweddol o ran sicrhau bod dysgwyr, yn enwedig dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dysgwyr anabl, yn cael taith ddiogel a dymunol i'r ysgol ac oddi yno.

24. Dylai Hebryngwyr Teithio gael eu hyfforddi i wneud y canlynol

- helpu disgyblion i fynd ar y cerbyd a sicrhau eu bod yn gwisgo eu gwregysau'n briodol yn eu seddi
- cynorthwyo'r gyrrwr wrth ddefnyddio'r lifft ôl
- storio unrhyw fagiau neu offer/eiddo arall yn ddiogel
- sicrhau y caiff y disgybl ei drosglwyddo i ofal yr ysgol (nid i mewn i adeilad yr ysgol o reidrwydd)

25. Nid yw'n ofynnol i Hebryngwyr Teithio wneud y canlynol

- rhoi meddyginiaeth. Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd penodol lle y gellir hyfforddi hebryngwyr i roi meddyginiaeth yn unol â CDU dysgwr, ond ni ellir gwarantu hyn a dylid trafod y mater â Chydlynydd ADY y dysgwr
- Dod at y drws i gasglu'r dysgwr. Aros ar y cerbyd er diogelwch yr holl ddysgwyr eraill yw ei ddyletswydd.

26. Cynghorir Hebryngwyr Teithio i eistedd yng nghefn y cerbyd fel bod ganddynt olwg dda o'r dysgwyr i gyd wrth deithio ar y cerbyd.

27. Os bydd dysgwyr mewn cadeiriau olwyn yn mynd ar y cerbyd gan ddefnyddio'r lifft ôl, bydd naill ai'r gyrrwr neu'r hebryngwr yn sefyll ar y lifft gyda'r dysgwr ac yn cynnal y gadair olwyn wrth fynd ar y cerbyd. Pan fydd y gyrrwr yn y lle cywir, gall yr hebryngwr gynorthwyo'r gyrrwr i glymu'r gadair olwyn yn sownd gan ddefnyddio'r atalyddion diogelwch a argymhellir.

[109] Driver and Vehicle Standards Agency - GOV.UK (www.gov.uk)

28. Lle y bo'n ymarferol, dylai'r holl ddisgyblion sy'n gallu cerdded fynd ar y bws drwy'r brif fynedfa. Bydd yr hebryngwr yn tywys y disgybl, yn sicrhau ei fod yn gyfforddus yn ei sedd ar y cerbyd ac yn sicrhau bod yr atalyddion diogelwch priodol wedi'u gosod yn gywir. Rhaid i ddisgyblion wisgo eu gwregysau diogelwch yn ôl y gyfraith a rôl Hebryngwyr Teithio yw sicrhau bod disgyblion yn gwisgo eu gwregysau diogelwch.

29. Ni ddylid disgwyl i Hebryngwyr Teithio a gyrwyr godi disgyblion i fyny stepiau, i mewn i seddi car nac i fyny stepiau uchel ar y bws.

30. Dylai awdurdodau lleol sy'n defnyddio Hebryngwyr Teithio sicrhau bod ganddynt bolisïau sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y bydd yr Hebryngwr Teithio yn ei ddarparu.

## Cwestiynau’r ymgynghoriad

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad i ymateb i’r cwestiynau uchod.

1. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt?

2. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

3. A ydych chi’n cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

4. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 11 (hybu dulliau teithio cynaliadwy) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

5. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni?

6. A ydych chi'n cytuno y bydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf yn helpu i gynyddu cysondeb ar draws awdurdodau lleol?

7. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori 4 egwyddor gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

8. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 1 o'r canllawiau (Canllawiau gweithredol)?

9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 2 (Asesu ‘llwybr sydd ar gael’ i’r ysgol)?

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 3 (Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009)?

11. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 4 (Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr)?

12. A ydych chi'n cytuno bod y diweddariad i'r canllawiau yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

13. Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

    Ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?
    Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

14. Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r canllawiau er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

15. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi: